

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYLLIDEB 2020/21

CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol	2 - 4
Adroddiadau'r Cyngor:	
4 Mawrth 2020 (Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2020/2021)	6 – 19
4 Mawrth 2020 (Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor 2020/21 - 2022/23 gan gynnwys adolygiad o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi)	20 - 31
Darlun Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	32 – 34
Crynodeb	35 – 43
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	44 – 58
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant	59 – 71
Prif Weithredwr	72 – 90
Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen	91 – 103
Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	104 – 106

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg / This document is available in English.

RHAGAIR GAN GYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYLLID A DIGIDOL

Ar 4 Mawrth 2020 cytunodd y Cyngor ar gynigion y Cabinet, a'i argymhellion, ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21, ochr yn ochr â Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor 2020/21 - 2022/23. Mae'r broses o bennu'r gyllideb yn parhau i fod yn heriol. Mae angen cydbwysio disgwyliau trigolion lleol ag ymgyrch barhaus y Cyngor am fwy o effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau a buddsoddiad mewn meysydd sy'n flaenoriaeth. Yn ogystal, mae angen cydnabod y pwysau ariannol parhaus mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Cyhoeddodd Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) **gynnydd** mewn cyllid refeniw (lefel Cymru gyfan) o 4.3% ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn 2020/21. Roedd y cynnydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn 4.5%

Er gwaethaf y setliad mwy cadarnhaol ar gyfer 2020/21, mae hyn yn dilyn cyfnod parhaus o ostyngiadau tymor real i'n cyllid am nifer o flynyddoedd. O'r herwydd, roedd datblygu strategaeth gyllideb deg a chyflawnadwy yn mynd i fod yn hynod heriol oherwydd y gallu cyfyngedig i gynyddu Treth y Cyngor (â sylfaen drethu isel) a'r pwysau sylweddol sy'n dod i'r amlwg ar lawer o wasanaethau'r Cyngor. Serch hynny, unwaith eto, cafodd penderfyniadau priodol eu gwneud yn gynnar yn rhan o drefniadau cynllunio tymor canolig parhaus y Cyngor i sicrhau nad oedd sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn cael ei beryglu, bod y gyllideb yn deg i bawb ac yn diogelu cynifer o wasanaethau allweddol a swyddi â phosibl, a bod agwedd gyfrifol yn parhau i gael ei chymhwyso tuag at gytuno ar lefel Treth y Cyngor.

Ar ôl derbyn y setliad llywodraeth leol derfynol, roedd bwlch cyllidebol y Cyngor yn dod i gyfanswm o £1.321 miliwn. Roedd y sefyllfa yma ar ôl effaith penderfyniadau cynnar (ac arbedion a gafodd eu sicrhau); y rhagdybiaeth bod y Cyngor yn mynd i wneud arbedion effeithlonrwydd wedi'u targedu gwerth £6 miliwn; a rhoi rhagor o arian sef £12.7 miliwn i ysgolion i dalu am chwyddiant mewn cyflogau ac mewn costau eraill.

Mae'r Strategaeth Gyllideb Refeniw hefyd yn pennu lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor sef 2.85%. Yn ogystal, mae wedi nodi arbedion cyllidebol pellach ym meysydd cludiant o'r cartref i'r ysgol, llety â chymorth a'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Fydd dim un o'r rhain yn effeithio ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Mae hefyd wedi cytuno ar ailddyrrannu adnoddau i alluogi buddsoddiad penodol mewn gwasanaethau rheng flaen (h.y. ymgysylltu â phobl ifainc / troseddau ieuencid, pyllau padlo a chefnogi Canolfan Gelf y Miwni, a hefyd cefnogi buddsoddiad ychwanegol yn ein seilwaith). Arweiniodd y mesurau yma at fwllch o £0.8 miliwn yn y gyllideb. Aeth y Cyngor i'r afael â hyn trwy ddefnyddio cyllid pontio'r Gronfa Gynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaethau.

Doedd y strategaeth uchod ddim yn tanseilio iechyd ariannol craidd y Cyngor ac roedd hi'n galluogi pennu'r gyllideb heb doriadau i'n gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen gwerthfawr.

Ochr yn ochr â'r Gyllideb Refeniw, cytunodd y Cyngor hefyd ar Raglen Gyfalaf Tair Blynedd newydd a fydd yn gweld buddsoddi mewn seilwaith ar draws y Fwrdeistref Sirol o £173.2 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Wedi'i gynnwys, roedd buddsoddiad ychwanegol o £11.85 miliwn gan y Cyngor. Roedd hyn wedi'i dargedu i gefnogi dyheadau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a gwaith ategol arall mewn meysydd megis:

- Gwella cyflwr a chynllun ffyrdd a buddsoddi mewn strwythurau priffyrdd, a fydd yn helpu i leihau ein costau cynnal a chadw a rhedeg o ddydd i ddydd;
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol trwy fuddsoddiad parhaus mewn datblygu cyfleusterau gofal ychwanegol;
- Gwaith Adfywio Canol y Trefi;
- Gwaith lliniaru llifogydd; a
- Parciau, mannau gwyrdd a mannau chwarae.

Mae proses pennu cyllideb 2020/21 wedi rhedeg ochr yn ochr â digwyddiadau digynsail: yn gyntaf, Storm Dennis ym mis Chwefror 2020, y digwyddiad tywydd mwyaf dinistriol y mae'r ardal wedi'i brofi mewn cenhedlaeth, ac yn ail, dechrau pandemig y coronafeirws (Covid-19) ym mis Mawrth. Mae'r Cyngor wedi bod yn blaenoriaethu ei waith i helpu trigolion a busnesau i adfer o'r digwyddiadau eithriadol yma a chan roi sylw penodol i Storm Dennis, dyrannodd y Cyngor £1.5 miliwn o'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yn 2019/20 i gefnogi'r gwaith yma. Bellach mae £8.709 miliwn yng Nghronfa Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor (ar 31 Mawrth 2020) (drafft, yn amodol ar archwiliad). Fel rhan o drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, bydd y cronfeydd wrth gefn yma'n cael eu hadolygu'n barhaus a'u hailgyflenwi yn y dyfodol, fel y bo'n briodol, gan ystyried cyllideb gyffredinol y Cyngor a'r risgiau ariannol y mae'n eu hwynebu.

Mae effaith uniongyrchol Covid-19 wedi arwain at aflonyddwch sylweddol ar draws gwasanaethau'r Cyngor - mae llawer ohonyn nhw wedi'u haddasu, eu cwtogi neu eu hatal dros dro. Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf, fel pob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru, yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyllid i dalu am y mwyafrif o'r costau ychwanegol yr aethpwyd iddyn nhw a'r incwm a gollwyd o ganlyniad i Covid-19 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Cydnabyddir fodd bynnag bod lefel yr adnoddau ychwanegol yn debygol o fod yn gyfyngedig ac nid yn dragwyddol. Bydd angen i lywodraeth leol ddod yn hunangynhaliol ar ryw adeg.

Yn unol â hyn, mae'r Cyngor yn asesu goblygiadau ariannol Covid-19 yn barhaus a bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn parhau i fod yn hanfodol wrth sicrhau bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r holl adnoddau sydd ar gael. Ni roddodd setliad terfynol 2020/21 unrhyw arwydd o lefelau adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (2021/22) nac i'r tymor canolig. Er hyn, mae disgwyl y bydd setliadau heriol parhaus yn y dyfodol, ynghyd â'r galw a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â llawer o wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae trefniadau gosod cyllideb y Cyngor, sydd bellach wedi'u hymgorffori'n broses barhaus yn hytrach nag achlysur blynyddol, yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i adlinio ac ail-flaenoriaethu ein hadnoddau

cyfyngedig. Bydd y ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu hefyd yn parhau i fod yn fwyfwy pwysig wrth i ni symud ymlaen.

Yn olaf, hoffwn i ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at lunio a chyflwyno'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn yma, gan gynnwys y rhai a gymerodd ran (dros 4,000) ym mhroses 'Ymgynghori ar y Gyllideb' y Cyngor. Pennu'r gyllideb yw'r cam cyntaf, a bydd y flwyddyn o'n blaenau ni unwaith eto yn un heriol iawn. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal trefnau ariannol cadarn ac ar ddarparu gwasanaethau allweddol ar gyfer trigolion y Fwrdeistref Sirol.

Barrie Davies CPFA
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD Y CYNGOR 4 MAWRTH 2020

- STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2020/21

ADRODDIAD Y CYNGOR 4 MAWRTH 2020

- RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR 2020/21 - 2022/23 GAN GYNNWYS ADOLYGIAD O GRONFEYDD WRTH GEFN SYDD WEDI'U CLUSTNODI

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BLWYDDYN Y CYNGOR 2019-20

Y CYNGOR

4 MAWRTH 2020

STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2020/21

ADRODDIAD Y CABINET

AWDUR: Barrie Davies - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Rhif ffôn: 01443 424026

1.0 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi gwybodaeth am y setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2020/21 ac yn nodi argymhellion y Cabinet mewn perthynas â Chyllideb Refeniw'r Cyngor a lefel Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2021.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

- 2.1 Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol terfynol 2020/2021, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
- 2.2 Nodi'r goblygiadau i'r Cyngor a'r bwlch sy'n weddill yn y gyllideb fel sydd wedi'i nodi yn Nhabl 1 yr adroddiad;
- 2.3 Cytuno ar gynnydd o 2.85% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2020/21;
- 2.4 Cytuno ar y cynnydd yng Nghyllideb Grynsyth yr Ysgolion fel sydd yn adran 8 yr adroddiad;
- 2.5 Cytuno ar gynigion strategaeth y gyllideb fel ym mharagraffau 9.3 (a) i 9.3 (i) yr adroddiad;
- 2.6 Defnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £0.800 miliwn ar gyfer 2020/21;
- 2.7 Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 12 yr adroddiad yn sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni gofynion ariannu corfforaethol y Cyngor;
- 2.8 Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2020/21 o £508.747 miliwn, er mwyn cymeradwyo'r penderfyniadau statudol angenrheidiol o ran pennu Treth y

Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2020.

3.0 CEFNDIR

- 3.1 Yng nghyfarfod y Cyngor ar 31 Gorffennaf 2019, cafodd cyfrifon archwiliedig y Cyngor eu cyflwyno, a chafodd ei grybwyll bod Balans y Gronfa Gyffredinol yn gyfanswm o £10.498 miliwn.
- 3.2 O ystyried y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor, mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol (y Swyddog Adran 151) yn dal i fod o'r farn y dylai'r Cyngor gadw lleiafswm o £10 miliwn ym Malans y Gronfa Gyffredinol (sef ei falans gweithredol). Mae'r lefel yma'n cael ei phennu yng nghyd-destun yr angen am reolaeth ariannol gadarn barhaus sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal sefydlogrwydd a hyblygrwydd ariannol yn y dyfodol.
- 3.3 Ar 17 Chwefror 2020, gwnaed penderfyniad brys gan Arweinydd y Cyngor i ddyrannu £1 miliwn o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i gefnogi'r gofynion adfer brys sy'n deillio o'r digwyddiad eithriadol, Storm Dennis. Ar 21 Chwefror 2020, rhyddhawyd £0.500 miliwn arall, gan ddod â'r lefel sy'n weddill i £8.998 miliwn. Bydd lefel cyllid wrth gefn y Gronfa Gyffredinol yn cael ei hail-lenwi wrth symud ymlaen, pan fydd cyllid allanol yn cael ei gadarnhau, yn rhan o strategaethau cyllidebol yn y dyfodol (gan gynnwys yr angen i adolygu lefelau gwasanaeth), o ail-flaenoriaethu cynlluniau presennol a/neu o unrhyw gyfleoedd i ryddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.
- 3.4 Bydd yr Aelodau'n gwybod hefyd bod gan y Cyngor, yn ogystal â'i Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn, nifer o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sy'n cael eu hadolygu'n barhaus ac sy'n cael eu hasesu bob blwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Cronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig yn rhan o'r cronfeydd yma, sydd wedi cefnogi arian pontio yn llwyddiannus yn rhan o drefniadau'r Cyngor o ran Cynllunio Gwasanaethau Tymor Canolig. Mae wedi cyflawni hyn drwy helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno arbedion yn y gyllideb dros nifer o flynyddoedd, a chaniatáu mantoli'r gyllideb flynyddol ar yr un pryd. Man cychwyn Cronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig ar 31 Mawrth 2019 oedd £3.303 miliwn. Yn rhan o'n strategaeth barhaus, rydyn ni wedi parhau i nodi a chyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn yn golygu ein bod ni wedi gallu cynyddu lefel y cyllid pontio sydd ar gael. Y sefyllfa ddiweddaraf yw bod y gronfa yma bellach wedi cynyddu i £4.363 miliwn (mae arbedion ychwanegol o £0.606 miliwn yn y flwyddyn hyd yma ynghyd ag adnoddau sydd wedi'u hadfer (£0.454 miliwn) yn dilyn cadarnhad o gyllid y llywodraeth mewn perthynas â chynnydd mewn costau pensiwn diffoddwyr tân gan Awdurdod Tân ac Achub De Cymru).
- 3.5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i bwysleisio bod rhaid i ni barhau i fod yn ddisgybledig ar yr adeg dyngedfennol yma, os ydyn ni eisiau cynnal ein hamcan tymor hir o ran gwella gwasanaethau allweddol yn barhaus, ond mae hyn yn dod yn fwyfwy anodd ei gyflawni yn sgil pwysau ariannol aruthrol o'r fath.
- 3.6 Mae asesiad Swyddfa Archwilio Cymru yn un cywir ac mae'n amlwg bod yr Aelodau'n parhau i ystyried eu dyletswydd ymddiriedol yn un hynod o ddifrifol fel y dangosir gan yr adroddiadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan y rheoleiddwyr a hanes rheolaeth

gyllidebol ar draws gwasanaethau. Yr her, felly, yw paratoi cyllideb referniw ochelgar, ecwitiol a theg ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2021. Rhaid i hyn gynnwys dull sy'n dangos yn gyhoeddus stiwardiaeth ariannol gadarn; sydd ddim yn cymryd risgiau diangen; sy'n manteisio i'r eithaf ar gynhyrchu incwm; ac sy'n darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ac y gallwn ni eu fforddio, yn ogystal â diogelu cynifer o swyddi ag sy'n bosibl.

3.7 Yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol gyffredinol yma, roedd y Cabinet, gyda chymorth yr Uwch Dîm Rheoli, yn gallu dechrau gwaith cychwynnol ar ei strategaeth gyllideb ar gyfer 2020/21. Dyma amcanion cyffredinol y strategaeth arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- (i) Cefnogi cyflawni ein blaenoriaethau strategol allweddol (fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol newydd "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024): -
 - Pobl: Eu bod nhw'n annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus
 - Lleoedd: Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw, gweithio, a chwarae ynddyn nhw
 - Ffyniant: Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.
- (ii) Cadw cefnogaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y dull mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn;
- (iii) Parhau i ddarparu ein gwasanaethau allweddol ac i ddiogelu cynifer o swyddi lleol ag sy'n bosibl;
- (iv) Cymryd agwedd gyfrifol tuag at osod lefel Treth y Cyngor.

4.0 SETLIAD LLYWODRAETH LEOL 2020/21

4.1 Ar 25 Chwefror 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) y Setliad Llywodraeth Leol terfynol ar gyfer 2020/21. Mae datganiad y Gweinidog a thabl data allweddol yn Atodiad 1.

4.2 Dyma "benawdau" y Setliad Terfynol:-

- a. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y Grant Cynnal Referniw a chyllid Ardrethi Annomestig ar gyfer 2020/21 (cyllid heb ei neilltuo) ar gyfer Cymru gyfan yn +4.3% (+£184 miliwn).
- b. Mae'r setliad terfynol ar gyfer Rhondda Cynon Taf sy'n destun adroddiad yn dangos cynnydd o **4.5%**, sy'n well na'r cyfartaledd, sef 4.3%. Mae ffigurau'r setliad yn amrywio o 3.0% i 5.4% ledled Cymru.
- c. Does dim mesurau diogelu wedi'u cynnwys ar gyfer 2020/21.
- d. Mae ffigurau'r setliad ar gyfer 2020/21 yn cynnwys trosglwyddo arian i'r setliad mewn perthynas â Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG (£1.9 miliwn), y Grant Cyflog Athrawon (£12.0 miliwn) a'r Grant Pensiynau Athrawon (£39.1 miliwn). Mae trosglwyddiad hefyd mewn perthynas â'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol (ddim yn berthnasol i'r Cyngor yma). Mae'r gwerthoedd ar gyfer y Cyngor yma yn £0.146 miliwn, 0.990 miliwn a £3.222 miliwn yn y drefn honno. Er bod goblygiadau rhan-flwyddyn (2019/20) y Grant Cyflog Athrawon a'r Grant

Pensiwn Athrawon yn trosglwyddo i'r setliad, mae'r goblygiadau blwyddyn lawn ychwanegol i'w hariannu o'r cynnydd yn y setliad.

- e. Does dim arwydd o beth fydd lefelau setliadau tu hwnt i 2020/21.
- f. Cynhwysir y ffigurau terfynol ar gyfer grantiau penodol, ar lefel Cymru gyfan. Mae parhad Grant y Tasglu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd a'r cynnydd ynddo (o £30 miliwn i £40 miliwn) yn arbennig o bwysig. Mae hyn yn ariannu ein cyllideb graidd.
- g. Mae Cyllid Cyfalaf Cyffredinol y Cyngor wedi'i ddyrannu wedi cynyddu o £0.236 miliwn i £13.677 miliwn.

5.0 GOFYNION CYLLIDEB SYLFAENOL Y CYNGOR 2020/21

5.1 Wrth ddisgwyl setliad llywodraeth leol 2020/2021, mae rheolwyr gwasanaethau'r Cyngor wedi paratoi gofynion cyllideb sylfaenol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Dyma ddarpariaethau'r cyfrifiadau cychwynnol hynny:-

- Lefelau dyfarniadau cyflog cenedlaethol, costau pensiwn a chyfraniad Yswiriant Gwladol amcancyfrifedig;
- Chwyddiant heblaw cyflogau (sef nwyddau a gwasanaethau), gan gynnwys ynni a thanwydd;
- Ardollau a gofynion ariannu corfforaethol; ac
- Effeithiau blwyddyn gyfan y beichiau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y Cyngor.

5.2 Adroddwyd i'r Cyngor am ofyniad cyllideb wedi'i ddiweddarau i'r Cyngor ar 15 Ionawr 2020 ochr yn ochr â goblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr 2019.

5.3 Ar ôl ystyried y gofyniad cyllideb wedi'i ddiweddarau a'r cynnydd yn y setliad dros dro o 4.5%, yn ogystal â'r eglurder a ddarperir ynghylch cyllid parhaus mewn perthynas â Grant y Tasglu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd, y Grant Cyflog Athrawon a'r Grant Pensiynau Athrawon, roedd y Cyngor yn wynebu bwllch yn y gyllideb o £8.702 miliwn.

5.4 Yn erbyn y sefyllfa yma, roedd yn bosibl ystyried arbedion yn y gyllideb a nodwyd ac a sicrhawyd eisoes a arweiniodd at fwllch yn y gyllideb o £1.321 miliwn, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Bwlch Cyllideb 2020/21 yn y Setliad Dros Dro (fel yr adroddwyd i'r Cyngor, 15 Ionawr 2020)

	£'000
Bwlch Cyllidebol Diwygiedig	8,702
Arbedion a Nodwyd Eisoes (yn ôl y Cynllun Ariannol Tymor Canolig)	-1,199
Nod Effeithlonwydd	-6,000
Amlogfa Llwydcoed	-182
Bwlch Cyllidebol sy'n Weddill	1,321

5.5 Yn erbyn y sefyllfa yma mae'r Cabinet wedi ystyried eu hopsiynau pellach ar gyfer strategaeth gyllidebol 2020/21.

5.6 Ni arweiniodd y Setliad Terfynol, fel y manylir ym mharagraff 4, at unrhyw newid o'r Setliad Dros Dro.

6.0 DATBLYGU CYLLIDEB GYTBWYS, ECWITÏOL AC MAE MODD EI CHYFLAWNI AR GYFER 2020/21

6.1 Er gwaethaf y setliad mwy cadarnhaol gan LIC ar gyfer 2020/21, mae'n dilyn cyfnod parhaus o ostyngiadau tymor real i'n lefelau cyllido. Yn erbyn y cyd-destun yma mae angen i ni ddatblygu cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae pwysau sylweddol yn parhau ar lawer o'n gwasanaethau ynghyd â gallu cyfyngedig i gynyddu incwm Treth y Cyngor, a sylfaen drethu isel. O fewn y ffiniau yma bydd angen i ni, felly, wneud penderfyniadau priodol i sicrhau bod cyllideb y flwyddyn nesaf yn ecwitiol i bawb, nad yw'n amharu ar ein sefydlogrwydd ariannol a'i fod yn diogelu a datblygu ein gwasanaethau allweddol.

6.2 Cafodd sylw ei roi i sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn Adran 3 o'r adroddiad. Mae'n hanfodol ein bod ni'n parhau â'r strategaeth rydyn ni wedi'i mabwysiadu hyd yn hyn sy'n ystyried pwysigrwydd trefnau ariannol cadarn, gan gynnwys balansau'r Gronfa Gyffredinol a defnydd priodol o'r "Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig" fel arian pontio, a thargedu unrhyw adnoddau sydd ar gael tuag at ein gwasanaethau cyhoeddus â blaenoriaeth uchel sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

6.3 Bob blwyddyn rhaid cymryd yr "haenen uchaf" yn lleol ar gyfer rhai darpariaethau ariannol corfforaethol cyn bod modd dyrannu cyllidebau gwasanaethau. Fydd y flwyddyn nesaf ddim yn wahanol. Bydd gofynion ar gyfer y canlynol:

- a) Darpariaeth ar gyfer talu ardollau cyrff allanol;
- b) Darpariaeth ar gyfer Costau Cyfalaf;
- c) Darpariaeth ar gyfer yr holl eitemau "Cyllid Amrywiol" eraill (ffioedd archwilio, costau yswiriant, taliadau banc ac ati) sydd ddim yn berthnasol i wasanaethau penodol; ac
- d) Adnoddau ar gyfer ariannu'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

6.4 Yn rhan o'n gofyniad ar gyfer y gyllideb wedi'i ddiweddarau, mae symiau priodol wedi'u rhoi o'r neilltu ar gyfer y gofynion ariannol corfforaethol yma.

7.0 LEFELAU TRETH Y CYNGOR

7.1 Mae'r Cyngor yma bob tro wedi ymddwyn yn rhesymol wrth bennu ei Dreth y Cyngor, gan bwysu a mesur yr effaith ar wasanaethau a gallu'r cyhoedd i'w dalu, gan gydnabod bod y rhai cymwys yn cael cymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Y cynnig yw cynyddu Treth y Cyngor yn 2020/21 o 2.85%, hynny yw, llai na'r 3.00% a fodelwyd yn wreiddiol. Mae'r cynnydd arfaethedig yma o 3.60% yn cyfateb i 53c yr wythnos i berson sy'n byw mewn eiddo Band A a 80c yr wythnos i rywun sy'n byw mewn eiddo Band D (mae 42% o'r eiddo yn Rhondda

Cynon Taf ym Mand A). Bydd cynyddu Treth y Cyngor o 2.85% yn cynyddu'r bwloch sy'n weddill yn y gyllideb o £0.132 miliwn.

- 7.2 Bydd yr aelodau'n gwybod bod newidiadau yn y llwyth achosion a newidiadau i lefel Treth y Cyngor yn effeithio ar gost y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae hyn yn effeithio ar yr incwm net sy'n cael ei gynhyrchu trwy unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Bydd cynnydd 1% yn Nhreth y Cyngor yn cynhyrchu incwm ychwanegol i'r Cyngor sydd werth £1.126 miliwn (ar lefel sylfaen drethu 2020/21), ond bydd hefyd yn costio £0.243 miliwn ar gyfer gofynion ychwanegol o ran y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mae'n dilyn, felly, bydd cynnydd o 1% yn cynhyrchu incwm net ychwanegol sydd werth £0.883 miliwn, neu, mewn geiriau eraill, bydd 22% o unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn cael ei golli er mwyn cefnogi'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â 'Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor' Llywodraeth Cymru.

8.0 CYLLIDEB YSGOLION (CYLLIDEBAU YSGOLION UNIGOL)

- 8.1 Mae'r Aelodau bob tro wedi bod o'r farn bod ein hysgolion yn flaenoriaeth allweddol, ac wedi sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin yn ffafriol o'u cymharu â gwasanaethau eraill y Cyngor.
- 8.2 Roedd cynnydd o £1.5 miliwn i ysgolion wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhan o'r rhagdybiaethau modelu cyllideb cychwynol (Gorffennaf 2019).
- 8.3 Yn dilyn yr eglurder a ddarparwyd trwy'r setliad mewn perthynas â chyllid ar gyfer costau Costau Pensiwn Athrawon a dyfarniad Tâl Athrawon (2019), mae'r symiau yma bellach wedi'u trosglwyddo i'n hysgolion yn llawn. Yn ogystal â hyn, mae cyllid yn cael ei ddarparu i dalu chwyddiant a phwysau costau cyflogaeth a chostau heblaw cyflogau yn llawn, gan gynnwys sylfaen cyllid untro a chyllid wedi'i drosglwyddo'n uniongyrchol (£2.5 miliwn) a gafodd ei ddarparu ar gyfer cyllideb 2019/20. O'r herwydd, mae ysgolion yn cael eu hariannu'n llawn ar gyfer 2020/21.
- 8.4 Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn cynyddu'r Gyllideb Ysgolion o £148.9 miliwn i £161.6 miliwn, cynnydd o £12.7 miliwn, neu 8.5%.

9.0 CYNIGION AR GYFER STRATEGAETH GYLLIDEB

- 9.1 Mae'r Cyngor yma wedi cymryd agwedd ragweithiol at ddelio â'r gostyngiadau tymor real parhaus mewn adnoddau y mae wedi'u derbyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi parhau i gyflawni cynigion arbed yn gynnar gyda ffocws clir yn cael ei gynnal ar draws y gorwel cynllunio tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu cyllidebau cadarn, cytbwys ac wedi achub ar y cyfle i ddefnyddio ein Cronfa Gynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaethau, yn gyllid pontio, i gefnogi'r strategaeth gyllideb gyffredinol yn synhwyrol. Argymhellir parhau â'r dull yma.
- 9.2 Rydyn ni yn y Cabinet bob amser wedi canolbwyntio ar amddiffyn ein gwasanaethau rheng flaen ac wedi cymryd unrhyw gyfleoedd i flaenoriaethu neu ailddyrranu adnoddau i feysydd sy'n cael blaenoriaeth.
- 9.3 Ar gyfer 2020/21, argymhellir y cynigion canlynol i'r Cyngor.

a. Cynllun rhyddhad lleol - Ardrethi Annomestig

Mae'r Cabinet eisoes wedi ymgynghori ar gynnig i gyflwyno cynllun rhyddhad dewisol lleol ar gyfer Ardrethi Annomestig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Ionawr ac mae'r Cabinet (ar 13 Chwefror 2020) wedi penderfynu sut yr hoffai symud ymlaen. Fel y cyfeiriwyd ato yn adroddiad y Cabinet, mae adnoddau eisoes wedi'u rhoi o'r neilltu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i ddarparu cefnogaeth bellach i'n canol trefi a'n busnesau felly does dim effaith ariannol bellach ar ein cyllideb sylfaenol.

b. Ymgysylltu â Phobl Ifainc / Troseddau Ieuencid

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen parhaus i weithio'n rhagweithiol ar draws ein gwasanaethau, gyda'n hysgolion a'n partneriaid i sicrhau effeithiolrwydd ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifainc o fewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol ac i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifainc ledled y Fwrdeistref Sirol i gyrraedd eu potensial llawn a goresgyn rhwystrau i ddysgu a chynnydd. Mae ein gwariant craidd cyfredol ar Ymgysylltu â Phobl Ifainc yn £1.9 miliwn. Cynigir y dylid buddsoddi referniw ychwanegol o £0.25 miliwn yn y maes yma, sy'n cynrychioli cynnydd yn y gyllideb o dros 13%.

c. Pyllau Padlo

Wedi i nifer o grwpiau gwirfoddol allu agor pyllau padlo yn ystod yr haf diwethaf, bydd y Cyngor nawr yn gweithio'n ehangach gyda grwpiau cymunedol ac yn rhoi pecyn o gefnogaeth bwrrpasol ar waith a fydd yn galluogi rhagor o byllau padlo i agor trwy gydol y gwyliau haf sydd i ddod (yn amodol ar barodrwydd grwpiau cymunedol). Cynigir cynnwys £50 mil yn strategaeth y gyllideb at y diben yma.

d. Benthycia Darbodus ar gyfer Buddsoddi yn ein Seilwaith

Yn dilyn buddsoddi dros £95 miliwn yn ein blaenoriaethau seilwaith a chorfforaethol er 2015, cynigir neilltuo £0.5 miliwn o'n hadnodd refeniw i alluogi £7.5 miliwn o adnoddau cyfalaf, trwy ddefnyddio pwerau benthycia darbodus, i'w fuddsoddi ymhellach yn ein meysydd buddsoddi sy'n cael eu blaenoriaethau. Bydd hyn yn cynnwys datblygiadau strategol i briffyrdd, parciau a mannau gwyrdd a buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau gofal ychwanegol. Bydd manylion llawn y gwariant yma wedi'u nodi yn y rhaglen gyfalaf wedi'i diweddarau ar gyfer 2020/21 i 2022/23 sydd ar ddod.

e. Cefnogi Canolfan Gelf y Miwni

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ganolfan Gelf y Miwni ochr yn ochr â chynllun tymor hwy uchelgeisiol i adnewyddu'r Ganolfan yn sylweddol. Tra mae'r cynlluniau tymor hwy yma'n cael eu datblygu ynghyd â phhecyn cyllido posibl, cadarnheir mai'r cynllun cychwynnol yw ailagor y lleoliad yn ystod haf 2020 (yn dilyn gwaith cynnal a chadw cychwynnol). Er mwyn cefnogi'r ailagor, tra mae'r weledigaeth tymor hwy yn cael ei datblygu, mae angen gwneud cyfraniad refeniw o £140 mil y flwyddyn. Bydd y cymorth refeniw yn cael ei neilltuo ac mae gofyniad cyllideb refeniw o £105 mil ar gyfer rhan o flwyddyn.

f. Ffioedd a chostau

Cyflwynwyd adroddiad terfynol ar lefelau arfaethedig Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2020/21 i'r Cabinet a chytunwyd arno ar 20 Chwefror 2020. Byddai cynigion y Cabinet mewn perthynas â ffioedd a thaliadau yn gweld cynnydd safonol o 1.5% (Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)), gyda nifer o eithriadau penodol:

Math o ffi/taliad	Cynnydd arfaethedig ar gyfer 2020/21
Hamdden am Oes	Dim cynnydd
Ffioedd Meysydd Parcio	Dim cynnydd
Ffioedd chwarae yr haf a'r gaeaf (Clybiau Chwaraeon)	Dim cynnydd
Prydau ysgol (Ysgolion Cynradd ac Uwchradd)	£0.05 y pryd (ac yna dim cynnydd am 2 flynedd h.y. 2021/22 a 2022/23)
Pryd-ar-glud a phrydau mewn Canolfannau Oriau Dydd	£0.10 y pryd
Lido Pontypridd (mynediad ar gyfer defnyddwyr sy'n oedolion)	£0.50 ar sesiwn nofio i oedolion

Cynigiwyd hefyd, mewn perthynas â Pharc Treftadaeth Cwm Rhondda, i gynyddu'r ffi mynediad i oedolion unigol a thocynnau teulu ar gyfer Taith Pyllau Glo Cymru (taith danddaearol) o £1.00 (i £7.95 a £20 yn y drefn honno) a safoni'r ffioedd mynediad i

oedolion a phlant i Ogorf Teganau Siôn Corn ar gyfer ymwelwyr sydd ddim yn rhan o grwpiau ysgol i £10.

Byddai effaith y cynigion yma (o gymharu â chynyddu'r holl ffioedd a thaliadau o 1.5%) yn lleihau incwm o £2 mil.

g. **Arbedion Ail-dendro Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**

Yn dilyn nifer o ymarferion ail-dendro llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf, gan sicrhau costau is i'n darpariaeth, mae adolygiad o'r gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol bellach wedi dod i'r casgliad bod modd rhyddhau £810 mil o'r gofyniad cyllideb sylfaenol.

h. **Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Bydd Aelodau'n gwybod drwy'r adroddiadau cyflawniad chwarterol eleni bod y costau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor wedi bod yn gyson is na'r gyllideb. Fel yn Chwarter 2 (adroddwyd 21 Tachwedd 2019), roedd y tanwariant a ragwelwyd yn y maes yma yn £0.352 miliwn. Mae gwaith ychwanegol ar lwythi achosion a'r galw bellach wedi'i gwblhau a'r cynnig yw lleihau'r gyllideb sylfaenol yn 2020/21 o £0.35 miliwn. Dylid nodi, er bod hyn yn mynd â'r gyllideb i £24.68 miliwn, mae hyn yn dal i fod yn fwy na chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y maes yma, sef £21.564 miliwn ar gyfer 2020/21.

i. **Strategaeth ac Arbedion Llety â Chymorth**

Yn ogystal â buddsoddiad parhaus y Cyngor mewn datblygu cyfleusterau gofal ychwanegol, mae'r Cabinet hefyd wedi cytuno i fuddsoddiad cyfalaf mewn datblygu llety â chymorth yng nghyfleusterau Llys Penllew a Choedlan y Goron. Mae'r cyfleusterau hyn bron wedi'u cwblhau a bydden nhw ar gael i dderbyn preswylwyr yn ystod 2020/21. Mae modd inni ychwanegu arbedion refeniw (ar gyfer rhan o flwyddyn) o £400 mil at ein cyllideb sylfaenol.

9.4 Dangosir goblygiadau'r cynigion strategaeth uchod, gan gynnwys y gostyngiad arfaethedig yn lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, ar weddill sefyllfa'r bwch cyllidebol yn nhabl 2 isod.

Tabl 2: Cynigion ar gyfer Strategaeth Gyllideb 2020/21

	£'000	£'000
Bwlch Cyllidebol sy'n Weddill		1,321
Cynllun Rhyddhad Lleol Ardrethi Annomestig	-	
Adnoddau Ychwanegol i Gefnogi Ymgysylltu â Phobl Ifainc	250	
Pyllau Padlo	50	
Benthyg Darbodus – Buddsoddiad (£7.5 miliwn)	500	
Canolfan Gelfyddydau'r Miwni – Cefnogaeth Refeniw	105	
Cynnydd o 2.85% yn Nhreth y Cyngor	132	
Ffioedd a Thaliadau	2	
Arbedion Ail-dendro Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	-810	
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	-350	
Arbedion Llety â Chymorth	-400	-521
Bwlch Cyllidebol sy'n Weddill		800

9.5 *Cronfa Wrth Gefn Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Thrawsnewid Gwasanaethau (Cyllid Pontio)* - Rydyn ni wedi defnyddio ein cronfa cyllid pontio wrth gefn yn synhwyrol yn rhan o'n strategaeth gyllideb gytbwys, ar lefel sydd ddim yn peryglu cadernid ein cyllideb ac y mae modd ei ailgyflenwi â pheth sicrwydd, o ystyried ein strategaeth barhaus o sicrhau arbedion yn gynnar.

9.6 Fel y cyfeiriwyd ato eisoes, mae'r gronfa wrth gefn ar hyn o bryd yn £4.363 miliwn, ar ôl ei hail-lenwi o £1.06 eleni (2019/20) i chwarter 2. Yn unol â hynny, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch cyllidebol sy'n weddill, cynigir y dylid dyrannu £0.8 miliwn o'r gronfa yma ar gyfer 2020/21. Byddai hyn yn rhoi cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21 ac yn gadael £3.563 miliwn yn y gronfa (yn amodol ar asesiad diwedd blwyddyn o'r arian wrth gefn). Bellach mae prosesau wedi'u gwreiddio'n dda i sicrhau bod arbedion yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn a bod y gronfa yma'n parhau i gael ei ail-lenwi.

		£'000
Bwlch Cyllidebol sy'n Weddill		800
Defnydd o Gyllid Pontio		-800
Bwlch Cyllidebol sy'n Weddill		-

9.7 Mae'r uchod yn darparu strategaeth gyllideb gadarn a chytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 sydd bellach yn cael ei hargymell i'r Cyngor.

10.0 BLAENORIAETHAU GWASANAETHAU

10.1 Hyd yn oed yn ystod y cyfnod yma o gwtogi sylweddol ar adnoddau ac, felly, bwysau ariannol ar yr holl wasanaethau, mae'r Cyngor yma'n parhau i fod yn ymrwymedig cyn belled ag y bo modd i sicrhau ei wasanaethau allweddol, cymunedau cryfach a chyfiawnder cymdeithasol.

10.2 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016–2020 yn egluro mai ein prif fwriad yw sicrhau Bwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb. Atgyfnerthwyd hyn yn ein Cynllun Corfforaethol arfaethedig newydd "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024 sy'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r strategaeth gyllidebol yma.

10.3 Yn ogystal â'n gofynion cyllideb refeniw sylfaenol, rydyn ni wedi parhau i fanteisio ar gyfleoedd hefyd i fuddsoddi mewn meysydd strategol allweddol trwy sicrhau bod arian untro ar gael. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy gynnal arolwg o gronfeydd sydd wedi'u clustnodi yn seiliedig ar risg a thrwy nodi cyfleoedd i arbed yn gynnar. Mae'r Cyngor eisoes wedi buddsoddi dros £95 miliwn (yn ychwanegol at y Rhaglen Gyfalaf arferol) mewn meysydd sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cynllun Corfforaethol ers mis Hydref 2015, a chytunwyd ar y buddsoddiad diweddaraf (£5.8 miliwn) gan y Cyngor ym mis Hydref 2019.

10.4 Bydd adroddiad sy'n nodi'r rhaglen gyfalaf wedi'i diweddarau ar gyfer 2020/21 i 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ei ystyried ochr yn ochr â'r strategaeth gyllideb refeniw yma.

11.0 STRATEGAETH GYLLIDEB GYFFREDINOL 2020/21 – PROSES YMGYNGHORI

11.1 Fel sydd wedi bod yn wir yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar ei strategaeth gyllideb gyffredinol a sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu.

11.2 Nodwyd y dull o ymgynghori â'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn adroddiad y Cabinet dyddiedig 17 Hydref 2019 ac ym mhenderfyniad dirprwyedig Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu dyddiedig 14 Tachwedd 2019.

Cam 1 - rhoddodd gyfle i drigolion a rhanddeiliaid roi adborth ar eu barn ar rai o'r blociau adeiladu strategol allweddol a ddefnyddir i lunio cyllideb y Cyngor.

Cam 2 - unwaith y cytunodd y Cabinet ar strategaeth gyllideb ddrafft, ac yng ngoleuni'r setliad llywodraeth leol dros dro, yna ymgynghorwyd â'r strategaeth ddrafft yma fel rhan o Gam 2.

11.3 Ystyriwyd adroddiad Ymgynghoriad Cam 1 gan y Cabinet ar 23 Ionawr 2020 ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yr ymgynghorwyd arnyn nhw wedyn fel rhan o Gam 2.

11.4 Mae adroddiad Ymgynghori Cam 2 bellach ynghlwm yn Atodiad 2. Roedd y broses ymgynghori cam 2 yn rhedeg o 24 Ionawr 2020 tan 7 Chwefror 2020. Roedd yn cynnwys:

- Holiadur ar-lein
- Tri achlysur i bobl ifainc a gafodd eu cynnal mewn ysgolion lleol
 - Ysgol y Pant
 - Treorci
 - Aberdâr
- Hyrwyddo trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Tri achlysur 'galw heibio' cyhoeddus, ar agor i'r gymuned ehangach
 - Canolfan Pennar (Aberpennar)
 - Canol Tref Pontypridd
 - Canolfan Chwaraeon Cwm Rhondda, Ystrad
- Cyfarfod Grŵp Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn
- Cyfarfod y Fforwm Anabledd
- Hyrwyddiad gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Aelodau Etholedig, Aelodau Cynulliad Lleol, Aelodau Seneddol, Cynghorau Cymuned a Thref, Undebau Llafur.

11.5 Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd gweithgaredd ymgynghori penodol gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac mae cofnodion y cyfarfodydd yma ynghlwm yn Atodiad 3.

11.6 Mae'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad hefyd wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori, gan drafod y dull arfaethedig am y tro cyntaf ym mis Medi 2019. Yna ymgynghorwyd â nhw fel rhan o Gam 1 (16 Rhagfyr 2019) a chawson nhw gyfle i rag-graffu ar y cynigion strategaeth gyllideb ddrafft fel rhan o Gam 2 (29 Ionawr). Mae cofnodion y cyfarfod diweddaraf wedi'u hatodi at Atodiad 4 (drafft ar hyn o bryd).

12.0 CYLLIDEB REFENIW MACRO 2020/21

- 12.1 Wrth benderfynu ar strategaeth ar gyfer 2020/21, mae'r Cabinet wedi ystyried ei ymrwymadau allweddol, ei farn ar ddarparu gwasanaethau a thaliadau perthnasol am wasanaethau a'r angen i leihau baich y dreth ar drigolion lleol. O ganlyniad, ac ar ôl ystyriaeth ofalus, mae'r Cabinet wedi dod i'r casgliad y gall nawr gynnig cyllideb refeniw fantoledig a fydd yn bodloni holl ofynion sylfaenol y strategaeth mae'n ei ffafrio a phennu cynnydd Treth y Cyngor mor isel â phosibl ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- 12.2 Mae Tabl 3 isod yn dangos sut y mae modd defnyddio'r adnoddau refeniw sydd ar gael i'r **Cyngor, gyda chynnydd yn Nhrefth y Cyngor o 2.85%**:

Tabl 3: Adnoddau Arfaethedig yn 2020/21

	£M
Gwariant Refeniw Net 2020/21	508.747
HEB Y: Grant Cymorth Refeniw a'r Trethi Annomestig wedi'u Hail-ddosbathu	388.666
HEB Y: Grantiau Penodol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant	3.400
Is-gyfanswm	116.681
HEB: Ryddhau'r Cronfeydd sydd wedi'u Clustnodi	0.800
I'w Gasglu gan Dalwyr Treth y Cyngor	115.881

- 12.3 Mae Tabl 4 isod yn dangos yr effaith gyffredinol ar wasanaethau trwy gymhwyso egwyddorion strategaeth gyllideb 2020/2021 sy'n cael ei hargymell gan y Cabinet.

Tabl 4: Cymhwyso Strategaeth Cyllideb Amlinellol 2020/21

ANGHENION Y GYLLIDEB	2019/20	2020/21	Cynnydd/ Lleihad
	£M	£M	£M
<u>Anghenion Corfforaethol</u>			
Cyllido Cyfalaf	18.917	19.713	0.796
Ardollau	11.930	12.438	0.508
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	24.336	24.680	0.344
Amrywiol	12.669	13.862	1.193
	67.852	70.693	2.841
<u>Cyllidebau Ysgolion Unigol</u>			
Cyllidebau Ysgolion Unigol	148.849	161.638	12.789
<u>Gwasanaethau Eraill y Cyngor</u>			
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	153.264	162.604	9.340
Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen	56.876	55.980	(0.896)
Adran y Prif Weithredwr	25.979	26.759	0.780
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant	30.649	31.073	0.424
Gwariant Refeniw Net	483.469	508.747	25.278

13.0 GRANTIAU PENODOL

- 13.1 Ar gyfer y flwyddyn nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn darparu dros £1,002 miliwn mewn Grantiau Penodol i Awdurdodau Lleol Cymru.
- 13.2 Er bod grantiau penodol yn gwanhau atebolrwydd lleol, mae cyllid o'r fath yn ein galluogi i ymgymryd â phrosiectau a darparu gwasanaethau na fydden nhw wedi bod yn bosibl fel arall. Er y byddwn ni'n parhau i wneud cynrychiolaeth i arian o'r fath gael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw, nes iddyn nhw wneud hynny, bydd grantiau penodol yn parhau i ychwanegu at ein cyllideb refeniw sylfaenol.
- 13.3 Yn ôl eu natur, mae grantiau penodol yn aml yn cael eu cyfeirio tuag at feysydd gwariant penodol neu amcanion polisi. Dydyn nhw ddim yn cynnig sicrwydd o ran eu parhad na'u gwerth parhaus, gan gyflwyno ansicrwydd o ran blaengynllunio.
- 13.4 Mae dyrannu grantiau penodol yn parhau i fod yn un o nodweddion allweddol y setliadau llywodraeth leol blynyddol, er bod ymrwymiad i leihau dulliau neilltuo o'r fath. Mae nifer o grantiau penodol sydd wedi'u cyflwyno i ddelio â phwysau cost cylchol hefyd (e.e. Grant y Tasglu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd) ac mae'n bwysig ein bod ni'n ceisio sicrhau eu bod yn parhau y tu hwnt i 2020/21.

14.0 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 14.1 Wrth ddatblygu'r Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 a argymhellir, cynhaliwyd Aseiad o'r Effeithiau ar Gydraddoldeb i sicrhau:
- i bod y Cyngor yn bodloni gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; a bod
 - ii sylw dyledus wedi ei roi i effaith debygol yr argymhellion ar faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu.

15.0 YMGYNGHORI

- 15.1 Ymgymerwyd ag ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan o lunio'r Strategaeth Cyllideb Refeniw a argymhellir ar gyfer 2020/21, ac mae'r canlyniadau yn Adran 11 yr adroddiad.

16.0 GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 16.1 Mae goblygiadau ariannol yr argymhellion wedi'u nodi ym mhrif ran yr Adroddiad.

17.0 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL

- 17.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i bennu cyllideb gytbwys a hefyd ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 iddo gael ei adrodd i'r Cyngor Llawn a'i gymeradwyo ganddo. Mae'r Strategaeth Cyllid Refeniw a argymhellir ar gyfer 2020/21 a'i hadrodd i'r Cyngor Llawn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau cyfreithiol yma.

18.0 CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 18.1 Lluniwyd Strategaeth Cyllideb Refeniw 2020/21 a argymhellir i gefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor, fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2016 - 2020, a'r Cynllun Corfforaethol newydd "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024. Mae'r dogfenau yma'n dilyn y nodau a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

19.0 CASGLIADAU

- 19.1 Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gadarn, gyda lefel y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol yn uwch na £10 miliwn, cyn y dyraniad brys o £1.5 miliwn i gefnogi'r gofynion adfer ar unwaith sy'n codi o Storm Dennis, gyda chynlluniau clir i ailgyflenwi'r cronfeydd.
- 19.2 Ar 25 Chwefror 2020, cyhoeddodd Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2020/21 ac roedd hynny'n dangos mai 4.5% oedd y cynnydd yn yr adnoddau ar gyfer y Cyngor yma.
- 19.3 Mae cynigion y Cabinet yn mynd i'r afael â gofynion ariannol corfforaethol y Cyngor yn briodol ac yn dyrannu cynnydd ariannol digonol i Gyllideb Ysgolion Unigol. Mae'r adnoddau sy'n weddill ac ar gael yn cael eu dyrannu i ariannu'r holl wasanaethau eraill ac i gefnogi ein blaenoriaethau allweddol yn 2020/21.
- 19.4 Mae'r Cabinet wedi argymhell pennu lefel gwariant refeniw 2020/21 a'r gyllideb yn £508.747 miliwn. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o 2.85% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2021.
- 19.5 Mae'r Cyngor hyd yn hyn wedi gallu darparu cyllidebau cytbwys o flwyddyn i flwyddyn ochr yn ochr â rhaglen fuddsoddi sy'n cefnogi blaenoriaethau allweddol. Mae'r her yn parhau o ran rheolaeth ragweithiol a chadarnhaol gan Uwch Reolwyr y Cyngor a chyfeiriad clir gan Aelodau i baratoi cyllideb gadarn a chynaliadwy o safbwynt ariannol yn y tymor canolig mewn hinsawdd economaidd heriol.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BLWYDDYN Y CYNGOR 2019-2020

Y CYNGOR

4 Mawrth 2020

RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR 2020/21 – 2022/23 GAN GYNNWYS ADOLYGIAD O GRONFEYDD WRTH GEFN SYDD WEDI'U CLUSTNODI

ADRODDIAD Y CABINET

AWDUR: Barrie Davies - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol Rhif ffôn:01443 424026

1.0 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma'n egluro Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020/21 i 2022/23, yn dilyn cadarnhau'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2020/21.

2.0 ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

- 2.1 Sylwi ar fanylion setliad terfynol llywodraeth leol am 2020/21 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;
- 2.2 Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi fel sydd ym mharagraff 5.3;
- 2.3 Cytuno i ymgymryd â Benthycia Darbodus fel ym mharagraff 5.5;
- 2.4 Cytuno i ddyrannu'r cyllid sydd wedi'i ryddhau o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi a Benthycia Darbodus i'r blaenoriaethau buddsoddi fel ym mharagraff 6.2;
- 2.5 Cytuno ar y rhaglen tair blynedd 'graidd' arfaethedig, yn Atodiad 2;
- 2.6 Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3, sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:
 - Benthycia darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, prosiect Datblygu Llys Cadwyn (Dyffryn Taf) a chynlluniau gwella'r priffyrdd;
 - Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
 - Cyfraniadau trydydd parti;
 - Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau sy'n bodoli eisoes a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;

- Y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 6.2, sydd wedi'u hariannu gan arian cyfalaf un tro oddi wrth Lywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi ym mharagraff 3.2, rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u clustnodi yn unol â pharagraff 5.3, a Benthycia Darbodus yn unol â pharagraff 5.5.

3.0 **CEFNDIR**

- 3.1 Bydd yr Aelodau'n effro i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, bob blwyddyn, yn dyrannu benthyciad â chymorth sydd heb ei neilltuo a Grant Cyfalaf Cyffredinol i'r Cyngor. Mae manylion y dyraniad terfynol ar gyfer 2020/21 i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'r cyllid ar gyfer 2020/21 wedi cynyddu i £13.677 miliwn o ganlyniad i LIC yn cynyddu cyllid cyfalaf cyffredinol dros 3 blynedd (hyd at 2020/21) o £100 miliwn (i gyd), yn ogystal â £15 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn setliad dros dro 2020/21 sy'n aros yr un fath ar gyfer y setliad terfynol. Y dyraniad sylfaenol blynyddol ar gyfer 2020/21 yw £10.985 miliwn ac mae ein cyfran amcangyfrifedig o'r dyraniad ychwanegol yn £2.692 miliwn. Hyd yn oed gyda'r cyllid ychwanegol yma, mae gostyngiad o £3.629 miliwn o hyd o gymharu â 10 mlynedd yn ôl:

Blwyddyn	Cymorth Cyfalaf Llywodraeth Cymru
2010/11	£17.306 miliwn
2011/12	£13.856 miliwn
2012/13	£12.828 miliwn
2013/14	£11.328 miliwn
2014/15	£11.194 miliwn
2015/16	£11.154 miliwn
2016/17	£11.164 miliwn
2017/18	£11.232 miliwn
2018/19	£11.214 miliwn
2019/20	£13.441 miliwn
2020/21	£13.677 miliwn

- 3.2 Wrth benderfynu ar ein cyllid cyfalaf craidd ar gyfer 2020/21 rydym ni wedi cynnwys y dyraniad blynyddol sylfaenol o £10.985 miliwn gyda'r £2.692 miliwn ychwanegol a gafodd ei ddyrannu i ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 6.2. Fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1, 2020/21 yw blwyddyn olaf cyllid Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol LIC, felly yn absenoldeb unrhyw arwyddion o lefelau setliad y tu hwnt i 2020/21, rydyn ni wedi tybio na fydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 a 2022/23 yn cynnwys y cyllid ychwanegol.
- 3.3 Mae'r swm sylfaenol yma, ynghyd ag amcangyfrif Derbyniadau Cyfalaf a defnyddio Cronfeydd Cyfalaf, yn cynrychioli cyllido cyfalaf 'Craidd' y Cyngor. Serch hynny, mae'r rhaglen gyfalaf gyffredinol ehangach yn cynnwys benthycia darbodus cymeradwy, grantiau penodol a buddsoddiad ychwanegol cytunedig yn ein blaenoriaethau allweddol.

4.0 Y RHAGLEN TAIR BLYNEDD NEWYDD (2020/21 I 2022/23)

4.1 Mae'r rhaglen gyfalaf 3 blynedd newydd arfaethedig ar gyfer 2020/21 i 2022/23 yn cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o **£131.772 miliwn**. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhaglen graidd o £ 42.3 miliwn dros y 3 blynedd nesaf;
- Cefnogi Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Datblygiad Llys Cadwyn (Dyffryn Taf) a gwelliannau i'r priffyrdd trwy ddefnyddio amodau benthyca darbodus - £20.249 miliwn;
- Grantiau penodol - £16.819 miliwn;
- Cyfraniadau trydydd parti - £1.048 miliwn;
- Cronfeydd wrth gefn a chyfraniadau cyllid wedi'u clustnodi a oedd wedi'u dyrannu i gynlluniau a blaenoriaethau buddsoddi - £29.223 miliwn;
- Derbyniadau cyfalaf, yn ychwanegol at y dyraniad craidd tair blynedd - £10.283 miliwn;
- Os cytunir arnyn nhw, bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ychwanegol ac wedi'u haildyrannu o £1.658 miliwn a benthyca darbodus ychwanegol o £7.5 miliwn i ariannu'r blaenoriaethau buddsoddi y manylir arnyn nhw ym mharagraff 6.2, ochr yn ochr â chyllid cyfalaf unigryw LIC o £2.692 miliwn.

4.2 Gan roi sylw dyledus i lefel yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael, gan LC ac o'n derbyniadau cyfalaf ein hunain, mae'r rhaglen graidd newydd ar gyfer 2020/21 i 2022/23 wedi'i gosod ar £14.1 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli rhaglen graidd gwerth £42.3 miliwn a ariennir yn llawn dros y 3 blynedd.

4.3 Mae risg o hyd bod y derbyniadau cyfalaf rhagamcanol yn llai na'r disgwyl a bydd rhagamcanion yn parhau i gael eu monitro'n agos.

4.4 Wrth ddyrannu adnoddau craidd am dair blynedd, mae gofyn i ni o hyd i barhau i adolygu a herio unrhyw ymrwymadau sy'n cael eu gwneud yn yr ail flwyddyn a'r drydedd flwyddyn, i fonitro rhagamcanion derbyniadau cyfalaf yn drylwyr ac i fod yn barod i ymateb yn briodol ac yn ôl yr angen wrth i ni symud ymlaen.

4.5 O gofio amseriad prosesau cymeradwyo cyllid allanol, bydd angen cynnal hyblygrwydd cyllid ar draws cynlluniau unigol er mwyn sicrhau bod y rhaglen gyffredinol yn cael ei chyflwyno yn y modd mwyaf effeithlon.

4.6 Nodir manylion y rhaglen gyfalaf gyffredinol am y cyfnod o 3 blynedd yn Adran 7 yr adroddiad yma.

5.0 ADOLYGIAD O GRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI A CHYLLID SYDD AR GAEL

CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI'U CLUSTNODI

5.1 Fel yr adroddwyd i'r Cyngor yn y Datganiad Cyfrifon (31 Gorffennaf 2019), roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'n llif refeniw ar 31 Mawrth 2019 o £41,867 miliwn (£64.157 miliwn ar 31 Mawrth 2018) a roddir o'r neilltu at amryw ddibenion. Yn ogystal â hynny, mae cronfeydd wrth gefn penodol yn ymwneud â Chyllid Cyfalaf, Yswiriant a Rheoli'r Trysorlys.

5.2 Adolygir lefel a defnydd y cronfeydd wrth gefn yn gyson fel rhan o drefniadau rheoli ariannol cadarn y Cyngor. Yn draddodiadol, mae gosod cyllidebau a chasglu cyfrifon yn darparu cyfleoedd ar gyfer adolygiadau mwy manwl ac mae'r Cabinet wedi gofyn yn benodol i'r Swyddog Materion Adran 151 gynnal asesiad risg manwl o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi gyda'r bwriad o:

- Asesu'r risg ariannol sylfaenol y cawson nhw eu neilltuo ar ei chyfer i benderfynu a yw'n parhau neu a yw amgylchiadau wedi newid;
- I ba raddau y mae unrhyw symiau a neilltuwyd i'w buddsoddi (Ymrwymadau Blwyddyn Flaenorol - "Symiau a ddygwyd ymlaen") wedi'u hymrwymo'n gontract;
- Bod yn glir ar y rhesymau dros gynnal cronfeydd wrth gefn a sicrhau eu bod yn ddigonol, ond nid yn ormodol;
- Yr angen am gymorth parhaus Cynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn.

5.3 A'r adolygiad wedi'i gwblhau, mae'r Cabinet erbyn hyn yn gallu gweld i ba radd y bydd modd rhyddhau unrhyw symiau. Mae'r rhain yn cael eu rhestru isod:

a) Rheoli Ariannol a Rheoli Risg Adnoddau Dynol (£13.636 miliwn ar 31 Mawrth 2019).

Mae'r gronfa wrth gefn yma yn cynnwys arian ar gyfer nifer o rwymedigaethau posibl yn y dyfodol, gan gynnwys costau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd, hawliadau cyfreithiol posibl yn y dyfodol, goblygiadau diwygio lles, risgiau gofal cymdeithasol ac ati.

Gwnaed adolygiad o'r lefelau risg sy'n gysylltiedig â'r meysydd perthnasol y mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn perthyn iddyn nhw.

Yn dilyn adolygiad, mae'n cael ei gynnig bod modd rhyddhau **£0.75 miliwn** o'r Gronfa yma (yn dilyn y £1.05 miliwn a gafodd ei ryddhau ym mis Hydref 2019).

b) Buddsoddi/Seilwaith (£6.534 miliwn ar 31 Mawrth 2019).

Mae symiau wedi cael eu neilltuo i ariannu costau cynnal a gwella seilwaith ar draws y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn adolygiad, mae'n cael ei gynnig bod modd rhyddhau **£0.908 miliwn** o'r gronfa yma (yn dilyn y £3.862 miliwn a gafodd ei ryddhau ym mis Hydref 2019).

5.4 Y cyfanswm i'w ryddhau felly yw **£1.658 miliwn**.

BENTHYCA DARBODUS

5.5 Mae Strategaeth Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21 wedi nodi'r cyfle i neilltuo £0.5 miliwn o'r refeniw er mwyn buddsoddi £7.5 miliwn arall yn ein meysydd buddsoddi o flaenoriaeth, a hynny drwy ddefnyddio pwerau benthyca darbodus.

FAINT SYDD AR GAEL?

5.6 Mae'r Swyddog Materion Adran 151 yn fodlon nad yw rhyddhau'r adnodd uchod yn peryglu ein sefyllfa ariannol. O'r herwydd, mae'r Cabinet wedi ystyried yr opsiynau

sydd ar gael yn ofalus o ran defnyddio'r adnoddau a nodwyd uchod. Ystyriaeth barhaol yw cefnogi darparu Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020, y Cynllun Corfforaethol newydd arfaethedig "Gwneud Gwahaniaeth" 2020 - 2024 (sy'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r rhaglen gyfalaf wedi'i diweddaru yma) a'r rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol o dros £300 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf, uwchben y Rhaglen Gyfalaf gyloch, fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 25 Ionawr 2018.

5.7 Yn hynny o beth, mae'r Cabinet yn fodlon cynnig rhyddhau'r £1.658 miliwn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn llawn sydd, yn ychwanegol at y benthycion darbodus o £7.5 miliwn (wedi'i ariannu o £0.5 miliwn o'r gyllideb sylfaen referniw fel y manylir yn y strategaeth cyllideb referniw ar gyfer 2020/21). Yn ogystal, mae'r cyllid cyfalaf unigryw gan Lywodraeth Cymru o £2.692 miliwn (y cyfeirir ato ym mharagraff 3.2) yn arwain at gyfanswm yr arian sydd ar gael o **£11.850 miliwn**.

6.0 BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

6.1 Mae'r Cabinet o'r farn mai'r defnydd mwyaf priodol o'r adnoddau untro yma yw buddsoddi yn ein seilwaith ac i gefnogi dyheadau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol fel y'u cyflwynir yn yr adroddiadau y cyfeirir atyn nhw uchod.

6.2 Wrth allu cefnogi'r amcanion uchod, mae'r Cabinet wedi nodi'r meysydd penodol canlynol y bwriedir i'r Cyngor gytuno y bydd modd buddsoddi ynddyn nhw. Bydd y buddsoddiad yn cael ei wneud gyda chyllid sydd ar gael trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn unwaith ac am byth, adnoddau presennol a benthyciadau darbodus ychwanegol:

Blaenoriaeth Buddsoddi	£ miliwn
Priffyrdd a Ffyrdd	1.500
Strwythurau Priffyrdd	2.000
Strwythurau Parciau	0.750
Gwneud Gwell Defnydd / Datblygiadau Traffig	0.450
Deuoli'r A4119	1.000
Ffordd Osgoi Llanharan	0.500
Ffordd Gyswllt Treorci	0.100
Ffordd Osgoi Aberdâr	1.000
Cylchfan Tonyrefail	0.500
Gwaith Lliniaru Llifogydd	0.400
Depo a Chanolfan Ailgyrchu yn y Gymuned Dinas	0.250
Gwaith Adfywio Canol y Trefi	0.200
Gofal Ychwanegol	1.000
Parciau a Mannau Gwyrdd	1.000
Mannau Chwarae	0.500
Hybiau Cymunedol	0.400
Cronfa Trechu Tlodi	0.300
Cyfanswm Buddsoddiad y Cyngor	11.850

6.3 Mae rhagor o fanylion am y buddsoddiadau sy'n cael eu cynnig ym mharagraff 6.2 wedi'u cynnwys yn adran 7.

7.0 RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD 2020/21 – 2022/23

7.1 Mae'r manylion am y rhaglen arfaethedig tair blynedd ar gyfer pob Cyfadran i'w gweld isod.

GRŴP Y PRIF WEITHREDWR

7.2 Mae'r rhagamcaniadau diweddaraf yn nodi gwariant cyfalaf disgwylidig o £4.953 miliwn ar gyfer Grŵp y Prif Weithredwr yn 2019/20.

7.3 Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2020/21, fel sydd wedi'i grynhoi yn y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd, yw £2.019 miliwn.

7.4 Yn rhan o raglen barhaus y Cyngor i sicrhau safonau uchel o ran iechyd a diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol yn ei adeiladau, mae adnoddau priodol yn cael eu dyrannu i'n llety gweithredol o hyd ar gyfer rheoli ac ymdrin ag Asbestos a Chlefyd y Lleng Filwyr a mentrau buddsoddi i arbed hefyd

FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN

7.5 Mae'r rhagamcanion diweddaraf yn dangos gwariant cyfalaf disgwylidig blwyddyn lawn o £84,762 miliwn ar gyfer Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen yn 2019/20.

7.6 Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2020/21, fel sydd wedi'i grynhoi yn y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd, yw £56.969 miliwn.

7.7 Fel sydd wedi'i nodi yn 6.2, mae buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei ddarparu yn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn y meysydd canlynol:

- Priffyrdd a Ffyrdd - £1.5 miliwn
- Strwythurau Priffyrdd - £2.0 miliwn
- Strwythurau Parciau - £0.75 miliwn
- Seilwaith Trafnidiaeth - £3.550 miliwn (Gwneud Gwell Defnydd/Datblygiadau Traffig, Deuli'r A4119, Ffordd Osgoi Llanharan, Ffordd Gyswllt Treorci, Ffordd Osgoi Aberdâr a Chylchfan Tonyrefail)
- Gwaith Lliniaru Llifogydd – £0.4 miliwn
- Depo a Chanolfan Ailgylchu yn y Gymuned Dinas - £0.25 miliwn
- Gwaith Adfywio Canol y Trefi - £0.2 miliwn
- Cronfa Trechu Tlodi - £0.3 miliwn

Mae'r buddsoddiad ychwanegol yma wedi'i gynnwys yn y ffigurau yn Atodiad 3b.

FFYNIANT A DATBLYGU

7.8 Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn parhau i ddarparu ymrwymiad cyllido tymor hir ar gyfer adfywio economi'r Fwrdeistref Sirol a, thrwy wneud hynny, mae'n cefnogi un o Flaenoriaethau arfaethedig newydd y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol: Ffyniant - Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

- 7.9 Yn ogystal â hynny, bu buddsoddiad parhaus ar draws amrywiaeth o ffrydiau ariannu, wedi'i gefnogi gan gyllid allanol a Blaenoriaethau Buddsoddi'r Cynllun Corfforaethol. Mae hyn wedi galluogi cynnal ystod eang o waith adfywio er budd yr economi leol.
- 7.10 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chynnal cynlluniau cyffrous ac arloesol megis:
- Ailddatblygu safle Canolfan Siopa Dyffryn Taf/Taff Vale gyda datblygiad Llys Cadwyn;
 - YMCA Pontypridd - Ailddatblygu'r YMCA er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer y dyfodol fel canolfan gymunedol ar gyfer y celfyddydau creadigol sy'n hwyluso menter gymdeithasol, cyfleoedd hyfforddi a chyfranogiad y gymuned;
 - Datblygu llety busnes modern gydag unedau newydd yn Nhresalem, Aberdâr a Choedelái ger Tonyrefail;
 - Gwelliannau i'r treflun ar draws ein canol trefi allweddol - dull wedi'i dargedu at ddiweddarau adeiladau canol trefi ar gyfer rhagor o ddefnydd busnes a masnachol a pharhau i wella ansawdd y treflun a fydd yn darparu buddsoddiad busnes a thwf cyflogaeth;
 - Datblygu Hwb Trafnidiaeth integredig newydd yn y Porth yn rhan o Strategaeth Adfywio Canol Tref y Porth;
 - Datblygu a gwella ystod o gyfleusterau i ymwelwyr ym Mharc Gwledig Cwm Dâr yn rhan o'i ddynodiad fel Porth Cyrchfan Parc Rhanbarthol y Cymoedd;
 - Ardaloedd Cyfleoedd Strategol - mae nifer o Ardaloedd Cyfleoedd Strategol wedi'u datblygu i ddarparu twf economaidd a chreu swyddi yn Rhondda Cynon Taf. Dyma'r meysydd:
 - Porth Cwm Cynon - Bywiogi'r rhanbarth;
 - Pontypridd Ehangach, Trefforest – Cyrion y ddinas, calon y rhanbarth;
 - Tref Pontypridd – Canolbwynt y rhanbarth;
 - Coridor yr A4119 - Porth rhanbarthol Cwm Rhondda;
 - Llanilid ar yr M4 – Llywio'r Economi Ranbarthol.
- 7.11 Bydd y rhaglen o brosiectau adfywio yn ychwanegu gwerth at y buddsoddiad adfywio sylweddol sydd eisoes wedi digwydd a bydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gweithgareddau adfywio pellach.

TAI'R SECTOR PREIFAT

- 7.12 Mae'r rhaglen yma'n cynnwys y cynlluniau canlynol, ac wrth wneud hynny mae'n cyfrannu at un o Flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol arfaethedig y Cyngor: Pobl - Eu bod nhw'n annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus.
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Cymorth Cynnal a Chadw ac Atgyweirio a Grantiau Adnewyddu mewn Amgylchiadau Eithriadol;
 - Cynllun Buddsoddi Grantiau Eiddo Gwag;
 - Cyllideb Adfywio Cymunedau, sy'n darparu grantiau ar gyfer cefnogi nifer o fentrau sydd wrth wraidd yr agenda effeithlonrwydd ynni;
 - Trechu tlodi.

GWASANAETHAU RHENG FLAEN

Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd

- 7.13 Mae cyllideb o £15.257 miliwn ar gyfer 2020/21 wedi cael ei dyrannu i'r cam nesaf yn

rhaglen y Cyngor ar gyfer Gwella Priffyrdd ac mae gwneud hynny wedi cefnogi un o flaenoriaethau arfaethedig newydd y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol: Lleoedd - Lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio, a chwarae ynddyn nhw. Cynnwys y cynlluniau:

- £7.801 miliwn ar gyfer trin wyneb y ffordd a chynlluniau gosod wyneb newydd;
- Gwaith gwella meysydd parcio - £0.045 miliwn;
- Gwaith atgyweirio mawr i strwythurau megis pontydd a waliau - £6.051 miliwn;
- Gwaith gwella strwythurau parciau - £1 miliwn;
- Gosod goleuadau stryd newydd a'u gwella - £0.2 miliwn;
- Rheoli Traffig - £0.16 miliwn;

Prosiectau Strategol

- 7.14 Dyranwyd cyllideb ar gyfer 2020/21, sef £9.764 miliwn i Brosiectau Strategol ar gyfer cynlluniau seilwaith trafndiaeth mawr ac i ymestyn a gwella'r rhaglen o brosiectau gwella manau cyfyng a phrosiectau gwella rhwydwaith priffyrdd yn ogystal â diogelwch ffyrdd, rheoli traffig a gwelliannau draenio. Cynnwys y cynlluniau:
- Seilwaith Cludiant sy'n cynnwys cynlluniau Parcio a Theithio, Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar, Ffordd Osgoi Llanharan, cynllun Deuoli'r A4119 ger Coedelái, Porth Cwm Cynon - Gogledd, Ffordd Gyswllt y Gelli i Dreorci a'r rhaglen Gwneud Gwell Defnydd - £9.224 miliwn;
 - Gwelliannau Draenio - £0.54 miliwn.
- 7.15 Yn y blynyddoedd diwethaf mae nifer o grantiau wedi'u rhyddhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni cynlluniau ar y rhwydwaith trafndiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y Gronfa Trafndiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafndiaeth Leol, Teithio Llesol, ynghyd â dau grant newydd Cronfa Ffyrdd Cydnerth a'r Gronfa Cerbydau Allyriadau Isel lawn, yn ogystal â'r Grant Diogelwch Ffyrdd, Grant Llwybrau Diogel yn y Gymuned a Chynlluniau Lliniaru Llifogydd. Cyhoeddwyd canllawiau a chyflwynwyd ceisiadau am gynlluniau Diogelwch Ffyrdd ar 24 Ionawr 2020, a disgwyli'r grantiau eraill cysylltiedig â thrafnidiaeth yn ystod mis Chwefror 2020 ar gyfer cyllid 2020/21. Mae disgwyl cadarnhau'r grantiau sydd ar gael ym mis Mawrth 2020.
- 7.16 Bydd adroddiad ategol ar fanylion y cynlluniau arfaethedig ar gyfer prosiectau Priffyrdd, Trafndiaeth a Chynlluniau Strategol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

STRATEGAETH GWASTRAFF

- 7.17 Mae'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn £2.147 miliwn. Mae hyn yn ymwneud â'r Parc Eco ym Mryn Pica, y Cyfleuster Adfer Deunyddiau newydd, datblygiadau pellach yng Nghyfleuster Ailgyrchu yn y Gymuned Dinas a phrosiect i ddatblygu atebion ar gyfer trin ac ailgyrchu cynhyrchion hylendid amsugol.

CERBYDAU

- 7.18 Mae'r rhaglen dreigl tair blynedd ar gyfer amnewid cerbydau yn parhau. Y dyraniad tair blynedd yw £8.085 miliwn. Mae'r maes gwasanaeth yma'n destun asesiad parhaus ac adolygiadau parhaus o'r gofynion.

GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

- 7.19 Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn rhagweld gwariant cyfalaf blwyddyn lawn o £31.932 miliwn ar gyfer y gyfadran Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yn 2019/20.
- 7.20 Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i gyfadran Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2020/21, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig yw £25.243 miliwn a bydd hyn yn cefnogi un o flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol arfaethedig newydd y Cyngor: Ffyniant - Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

YSGOLION

- 7.21 Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu a chefnogi ei raglen fuddsoddi strategol hirdymor i greu amgylcheddau ysgolion sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ac yn rhoi'r ddarpariaeth ddysgu a'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl ifainc a'r gymuned ehangach. Mae'r rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei chefnogi gan gyllid y Cyngor, Grant Cyfalaf Band B Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod Llywodraeth Cymru, Grant Cyfalaf i Gynyddu'r Ddarpariaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru, Grant Hybiau Cymunedol Llywodraeth Cymru a chyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'r prosiectau ysgol allweddol canlynol naill ai ar y gweill neu wedi'u cynllunio, ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y rhaglen strategol gyffredinol ac yn cynnwys cyfuniad o waith adnewyddu, ailfodelu, dymchwel a chreu adeiladau newydd:
- Ysgol Gynradd Ffynnon Taf - creu ystafell gymunedol/cyfleuster gofal plant ac adeiladu estyniad a neuadd pedair ystafell ddosbarth i gynyddu capasiti yn yr ysgol;
 - Ysgol Gynradd y Gelli - adeiladu estyniad dwy ystafell ddosbarth a gwella'r ardaloedd chwarae allanol;
 - Ysgol Gynradd Llanharan - adeiladu estyniad dwy ystafell ddosbarth a gwella'r ardaloedd chwarae allanol;
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr - adeiladu estyniad pedair ystafell ddosbarth i gynyddu capasiti; darpariaeth parcio ceir; a chreu meithrinfa bwrpasol, i ehangu'r angen a nodwyd yn y gymuned sy'n darparu gwasanaethau gofal plant ychwanegol mae rhaid talu ffioedd ar eu cyfer ar gyfer yr ardal;
 - Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon - creu a sefydlu lleoliad gofal plant newydd mewn adeilad pwrpasol ar safle'r ysgol i ehangu'r angen a nodwyd yn y gymuned;
 - Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant - adeiladu estyniad dwy ystafell ddosbarth i gynyddu capasiti yn yr ysgol;
 - Ysgol Gynradd Gwauncelyn - adeiladu cyfleusterau gofal plant pwrpasol ar y safle i ehangu'r angen a nodwyd yn y gymuned gan ganiatáu i'r ysgol adennill lle addysgu sydd mawr ei angen;
 - Ysgol Gynradd Cwmlai - darparu cyfleusterau gofal plant pwrpasol ar safle'r ysgol i ehangu'r angen a nodwyd yn y gymuned ac adnewyddu rhannau o'r ysgol bresennol er mwyn cynyddu capasiti;
 - Ysgol Gynradd Dolau - creu a sefydlu cyfleusterau gofal plant pwrpasol ar safle'r ysgol i ehangu'r angen a nodwyd yn y gymuned;

- Ysgol Gynradd Treorci - darparu cyfleusterau gofal plant pwrpasol ar safle'r ysgol ac adnewyddu rhannau o'r ysgol bresennol;
- Ysgol Gymuned Tonyrefail - mae'r gwaith i adeiladu ysgol 3-19 oed newydd gyda chyfleusterau chwaraeon allanol gwell, gan gynnwys cae 3G newydd yn y ganolfan hamdden gyfagos, wedi'i gwblhau. Bydd yr holl waith allanol yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2020;
- Ysgol Gyfun Treorci - gwaith ailfodelu sylweddol i floc ystafelloedd dosbarth tri llawr. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dod i ben yn ystod haf 2020;
- Ysgol Gynradd Hirwaun - adeiladu ysgol gynradd newydd sbon ar safle presennol yr ysgol. Bydd y prosiect, gan gynnwys yr holl waith allanol, yn cael ei gwblhau yn haf 2021.

MÂN WAITH CYFALAF ARFAETHEDIG

- 7.22 Y dyraniad ar gyfer rhaglen mân waith cyfalaf arfaethedig yn 2020/21 yw £5.785 miliwn. Mae'r dyraniad yn cynnwys rhaglen dreigl barhaus ar gyfer adnewyddu/ailfodelu ceginau, gosod ffenestri a drysau newydd, gwaith hanfodol, ailwifro trydan, gwaith gwella'r larymau tân, adnewyddu'r toiledau, gwaith Deddf Cydraddoldeb/cydymffurfio, arolygon cyflwr, gosod boeleri newydd, adnewyddu toeau, gwelliannau i ysgolion, gwaith ymdrin ag asbestos a chyfalafu caledwedd/meddalwedd a thrwyddedau TG.
- 7.23 Bydd adroddiad atodol, sy'n cynnwys manylion am gynigion gwaith i'w trafod yn rhan o'r rhaglen uchod, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT

- 7.24 Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn rhagweld gwariant cyfalaf blwyddyn lawn o £12.133 miliwn ar gyfer Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant yn 2019/20.
- 7.25 Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant ar gyfer 2020/21, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd, yw £7.484 miliwn.
- 7.26 Fel sydd wedi'i nodi yn 6.2, mae buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant yn y meysydd canlynol:
- Cyfleusterau Gofal Ychwanegol - £1 miliwn
 - Parciau a Mannau Gwyrdd - £1 miliwn
 - Mannau Chwarae – £0.5 miliwn
 - Canolfannau Cymuned - £0.4 miliwn

Mae'r buddsoddiad ychwanegol yma wedi'i gynnwys yn y ffigurau yn Atodiad 3d.

GWASANAETHAU I OEDOLION A GWASANAETHAU I BLANT

- 7.27 Mae'r rhaglen ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant yn cynnwys cyllideb o £4.895 miliwn ar gyfer 2020/21. Bydd hyn yn parhau i ariannu'r gwaith adnewyddu a gwella hanfodol i sefydliadau Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant y Cyngor, gan gynnwys costau asbestos, yn unol â safonau

gofal a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Wedi'u cynnwys hefyd, mae costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Teleofal.

- 7.28 Bydd y buddsoddiadau yma yn cefnogi un o Flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor: Pobl - Eu bod nhw'n annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus

IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD

- 7.29 Mae gan y rhaglen Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd gyllideb o £2.589 miliwn yn 2020/21. Mae'r gyllideb yn cael ei dyrannu ar draws y rhaglenni treigl parhaus ar gyfer Gwella Parciau, Mynwentydd a mesurau Cymunedau Diogel. Mae'r gyllideb yma hefyd yn cynnwys dyraniad ar gyfer buddsoddi a gwaith gwella mewn canolfannau hamdden a mannau chwarae. Mae buddsoddi yn y meysydd hyn yn cefnogi Blaenoriaethau'r Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol: Lleoedd - Lle mae pobl yn falch o gael byw, gweithio, a chwarae ynddyn nhw.

8.0 GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 8.1 Wrth ddatblygu Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020/21 i 2022/23, cafodd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal i sicrhau:

- i bod y Cyngor yn bodloni gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; a
- ii bod sylw dyledus wedi ei roi i effaith debygol yr argymhellion ar faterion cydraddoldeb a gwahaniaethu.

9.0 YMGYNGHORIAD

- 9.1 Ymgwymerwyd ag ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o lunio'r rhaglen ddiwygiedig. Roedd hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y broses ymgynghori ehangach a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Strategaeth Cyllideb Refeniw a argymhellir 2020/21, yn enwedig mewn perthynas â blaenoriaethau buddsoddi a buddion cymunedol.

10.0 GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 10.1 Mae goblygiadau ariannol yr argymhellion yn cael eu nodi ym mhrif ran yr Adroddiad.

11.0 GOBLYGIAD(AU) CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH A DRAFODWYD

- 11.1 Mae Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020/21 i 2022/23 yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion cyfreithiol.

12.0 CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â'R DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 12.1 Mae Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2020/21 — 2022/23 wedi cael ei

llunio i gefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2016 - 2020 ac yn y Cynllun Corfforaethol newydd arfaethedig, 'Gwneud Gwahaniaeth' 2020 - 2024. Mae'r ddogfen yma yn cyd-fynd â'r nodau a'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

13.0 CASGLIADAU

- 13.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd yn rhan allweddol o Strategaeth Adnoddau a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yma. Gall buddsoddi cyfalaf wedi'i dargedu gael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau ac, o'i ddefnyddio'n effeithiol, gall fod wrth wraidd Blaenoriaethau'r Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol, lle bo hynny'n berthnasol.
- 13.2 Mae'r adroddiad yma yn egluro blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf y Cyngor hyd at fis Mawrth 2023. Mae hyn yn parhau i gynrychioli buddsoddiad uchelgeisiol a sylweddol (£131.772 miliwn) dros y tair blynedd nesaf.
- 13.3 Mae'r rhaglen yn cynnwys rhyw elfen o lithriad a nodwyd drwy gydol 2019/20, ond bydd hyn yn destun newid pan fydd gwariant terfynol y rhaglen gyfalaf yn hysbys ac y bydd cyfrifon 2019/20 wedi cael eu cwblhau. Bydd unrhyw newid o ran lithriad yn cael ei adrodd wrth yr Aelodau yn yr adroddiadau cyflawniad chwarterol.
- 13.4 Mae'r adroddiad yma hefyd wedi nodi'r cyfle i fuddsoddi £11.85 miliwn o adnoddau ychwanegol yn ein hardal leol, gan gynnwys ein hasedau ein hunain er mwyn gwella'r gwasanaethau sydd ar gael i'n trigolion.
- 13.5 Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, mae'n anochel bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r rhaglen, er enghraifft, lle gall cynlluniau newydd gael eu cefnogi gan grantiau penodol. Bydd gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau wrth i'r cyfleoedd yma godi drwy gydol 2020/21.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

DARLUN O'R AWDURDOD

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF – DARLUN

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio ym 1996 o dair o ardaloedd yr hen Forgannwg Ganol. Mae 241,264¹ o bobl yn byw yma, ac o ran y boblogaeth felly, dyma'r trydydd awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu arwynebedd o 424km² yng Nghymoedd y De, yn ymestyn o Fannau Brycheiniog i'r gogledd i ddinas Caerdydd i'r de.

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o dlodi cymharol ac o allgau cymdeithasol, yn enwedig yng nghymoedd gogleddol y sir. Gan y rhain mae rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal gan ei gyfadranau sy'n rheoli a chydlynu gwasanaethau cysylltiedig. Mae pedair cyfadran yn strwythur cyfredol y Cyngor:

Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Cynnal gwasanaethau cymorth i ysgolion; Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad; Derbyn Disgyblion a Llywodraethu; Mynychu'r Ysgol a Lles; Ysgolion yr 21ain Ganrif; Rheoli Asedau a Data; Gwasanaethau Arlwyio a gwasanaethau gwella ysgolion a her mewn partneriaeth â Chonsortium Canolbarth y De.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Darparu Gwasanaethau i Oedolion (Gwasanaethau Gofal Cymuned a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Gwasanaethau i Blant; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd; Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol (gan gynnwys Theatrau); Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth; Gwasanaethau Addysg yn y Gymuned; Llyfrgelloedd; Gwasanaethau Cymraeg; Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; a Rhaglenni Cyflogaeth.

¹ (241,264) – amcangyfrifiad canol blwyddyn 2019

Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen

Darparu gwasanaethau rheng flaen Prifffyrdd; Cludiant; Prosiectau Strategol; Gwasanaethau Gofal y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau Strydoedd) a'r Parciau; ynghyd â Gwasanaethau Adfywio, Materion Tai a Chynllunio, Achlysuron, Twristiaeth a Dylunio.

Prif Weithredwr

Darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar draws yr Awdurdod; gwasanaethau rheng flaen Gofal i Gwsmeriaid, Gweinyddu Budd-dal Tai a Threth y Cyngor; a gwasanaethau cymorth allweddol Cyllid, TGCh a Gwasanaethau Digidol, Eiddo Corfforaethol a Chaffael.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CRYNODEB O GYLLID

2020/21

CYLLIDEB YR AWDURDOD CYFAN – CRYNODEB

Mae cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod mewn blwyddyn ariannol yn cael ei rannu'n ddwy elfen, sef Gwariant Refeniw a Gwariant Cyfalaf.

Gwariant Refeniw:


O ran ffigurau setliad terfynol Llywodraeth Leol 2020/21, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldebau gwariant, roedd cynnydd o 4.5% mewn Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig. Gyda chynnydd o 2.85% yn Nhreth y Cyngor, £508.747 miliwn oedd Cyllideb Refeniw Net y Cyngor ar gyfer 2020/21.

Y cyfanswm i'w gasglu gan dalwyr Treth y Cyngor i gynnal gwariant y Cyngor yw £115.881 miliwn.

Gofyniad Cyllideb 2020/21

	£ miliwn
Gwariant Refeniw Net 2020/21	508.747
TYNNU: Grant Cynnal Refeniw a Chyfraniad Ardrethi Annomestig	388.666
TYNNU: Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant	3.400
Is-gyfanswm	116.681
TYNNU: Rhyddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi	0.800
I'w dalu gan dalwyr Treth y Cyngor	115.881

Mae'r siart isod yn dangos hyn.




Gwariant Cyfalaf

Mae manylion cyllid y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i'w gweld yn y tabl isod.

	£ miliwn
Benthyca yn unol â'r Cod Materion Ariannol	22.139
Benthyciadau eraill	6.829
Adnoddau'r Cyngor	38.138
Dyraniad Sylfaenol Blynyddol y Grant Cyfalaf Cyffredinol	4.156
Dyraniad Ychwanegol y Grant Cyfalaf Cyffredinol 2020/21	2.692
Dyraniad Ychwanegol y Grant Cyfalaf Cyffredinol 2018/19 a ddygwyd ymlaen	1.249
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru - Datblygu Unedau Diwydiannol Modern Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)	3.821
Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Adfywio wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru	0.854
Grant Adnewyddu Priffyrdd Llywodraeth Cymru	1.261
Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru	0.080
Grant Canolfannau Darganfod Parc Rhanbarth y Cymoedd Llywodraeth Cymru	0.296
Grant Rhaglen Gwastraff Cynhyrchion Hylendid Amsugol Llywodraeth Cymru	0.650
Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif (Llywodraeth Cymru)	4.762
Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru	0.020
Cynllun Cyfalaf Hybiau Cymunedol – Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru	0.450
Rhaglen Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru	3.263
Cronfa Budd Cymunedol Ffermydd Gwynt Grantscape	0.017
Cyfraniadau Trydydd Parti	1.038
Rhaglen Gyfalaf 2020/21	91.715



Mae'r siart isod yn dangos hyn.



Mae crynodeb o Raglen Gyfalaf Tair Blynedd yr Awdurdod ar gael ar ddiwedd yr adran yma, ac mae'r adrannau dilynol yn cynnwys manylion ar gyfer pob Cyfadran.

GWARIANT REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL

Cyfanswm y Gyllideb Refeniw Net ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yw £508.747 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £726.800 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: MATH O WARIANT

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
115.114	Burnham	127.474
44.200	NJC – Gweithwyr Llaw	44.043
0.894	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	0.887
126.132	NJC APT&C	128.397
1.957	Soulbury	1.926
4.847	Cydgyngor Trafod Telerau – Prif Swyddogion	4.968
0.012	Cydgyngor Trafod Telerau – Arweinwyr Ieuencid	0.012
8.832	Arall	9.516
301.988		317.223
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
7.287	Trwsio, a Chynnal a Chadw	7.225
0.638	Cynnal a chadw tiroedd	0.637
6.112	Ynni	5.946
1.263	Rhenti	1.230
6.274	Treth Leol	6.569
0.688	Dŵr	0.711
7.215	Glanhau/Domestig	7.292
0.279	Yswiriant	0.279
0.120	Arall	0.195
29.876		30.084
	<u>Cludiant</u>	
8.941	Trafnidiaeth Uniongyrchol	9.053
14.248	Llogi dan gontract	13.734
0.545	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.582
1.524	Lwfansau Ceir	1.671
0.279	Arall	0.262
25.537		25.302
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
18.125	Offer/Deunyddiau/Celfi	19.996
3.344	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	4.429
5.350	Darpariaethau	5.368
0.956	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.973
0.265	Hysbysebu	0.265
0.033	Costau'r Aelodau	0.033
12.226	Grantiau a Chyfraniadau	13.348
32.613	Gwasanaethau	33.865
5.663	Amrywiol	6.130
2.162	Arall	2.319
80.737		86.726
	<u>Trydydd Parti</u>	
6.508	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	9.457
36.370	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	35.839

59.119	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	68.142
4.868	Cefnogi Pobl	4.868
16.305	Gofal Maeth	16.599
8.561	Cludiant	8.580
0.204	Strwythurol	0.207
0.547	Cylchol	0.658
0.406	Cymhorthion diogelwch	0.412
0.062	Gwaith cynnal a chadw y gaeaf	0.063
1.475	Goleuadau'r strydoedd	1.543
0.013	Draeniad priffyrdd	0.014
0.153	Arall	0.156
134.591		146.538
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
1.011	Plant ysgol/Myfyrwyr	1.046
87.079	Budd-daliadau Tai a'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	86.618
0.400	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.425
88.490		88.089
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
5.088	Ailgodi Costau	5.087
5.088		5.087
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
1.852	Arall	1.423
23.788	Costau cyfalaf	26.328
25.640		27.751
691.947	Cyfanswm y Gwariant	726.800
	<u>Incwm</u>	
-124.269	Grantiau gan y Llywodraeth	-127.603
-26.427	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-28.328
-35.224	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-32.938
-0.157	Llog	-0.078
-2.564	Ailgodi costau – cyfrif refeniw arall	-0.044
-19.837	Incwm Mewnol	-29.062
-208.478	Cyfanswm yr Incwm	-218.053
483.469	CYLLIDEB REFENIW NET	508.747

Noder:

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol 2019/2020 yn cael eu nodi er gwybodaeth. Gall newidiadau o ran gofynion cyfrifyddu a chyfrifoldebau swyddogaethol amrywio'r darlun wrth gymharu blynyddoedd.

**REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU
CYNNAL**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant</u>	
87.326	Gwasanaethau i Oedolion	93.047
47.666	Gwasanaethau i Blant	50.958
2.682	Trawsnewid	2.567
15.824	Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned	16.109
153.498		162.681
	<u>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</u>	
27.892	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)	31.049
151.606	Ysgolion Dirprwyedig	161.578
179.498		192.627
	<u>Prif Weithredwr</u>	
0.395	Prif Weithredwr	0.391
2.859	Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	2.913
6.817	Adran Adnoddau Dynol	6.670
1.622	Gwasanaethau Cyfreithiol	1.636
10.660	Gwasanaethau Cyllid a Digidol	11.717
3.459	Eiddo'r Cyngor	3.712
25.812		27.039
	<u>Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen</u>	
2.667	Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu	2.791
54.142	Gwasanaethau Rheng Flaen	53.137
56.809		55.928
415.617	Cyfanswm Cyllideb y Cyfadrannau	438.275
	<u>Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</u>	
18.917	Cyllid Cyfalaf	19.713
12.384	Ardollau	12.438
11.815	Amrywiol	13.216
0.400	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.425
24.336	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	24.680
67.852	Cyfanswm Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan	70.472
483.469	CYFANSWM CYLLIDEB REFENIW	508.747

RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR

CYFADRAN	CYLLIDEB		
	2020/21	2021/22	2022/23
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant			
Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant	4.895	1.595	1.495
Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned	2.589	0.495	0.495
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant			
Ysgolion	19.458	0.547	0.164
Rhaglen Gyfalaf Atodol	5.785	3.875	3.875
Adran y Prif Weithredwr			
Gwasanaethau Cyllid a Digidol	0.700	0.700	0.700
Eiddo'r Cyngor	1.319	0.925	0.925
Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen			
Adfywio a Chynllunio	16.839	0.699	0.600
Tai'r Sector Preifat	6.750	6.450	5.550
Gwasanaethau Technegol y Prifffyrdd	15.257	4.509	1.455
Prosiectau Strategol	9.764	2.665	0.165
Strategaeth Gwastraff	2.147	0.000	0.000
Cerbydau	6.112	1.573	0.400
Adeiladau	0.100	0.100	0.100
CYFANSWM CYLLIDEB CYFALAF	91.715	24.133	15.924

* Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2019/2020, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno ar y rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**GWASANAETHAU CYMUNED A
GWASANAETHAU I BLANT**

TROSOLWG O'R GWASANAETHAU CYMUNED A'R GWASANAETHAU I BLANT

Mae Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant yn cynnwys y rhan fwyaf o wasanaethau cyswllt rheng flaen y Cyngor. Yn y gyfadran yma, mae dros 25% o'r staff sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y Cyngor, a nhw sy'n gyfrifol am ddarparu ystod o wasanaethau statudol a disgresiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:


- Gwasanaethau Gofal i Oedolion
- Gwasanaethau i Blant
- Trawsnewid
- Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned

Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar gyfer 2020/21 yw:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	7.484	0.000	7.484
Refeniw	239.611	-76.930	162.681
Cyfanswm	247.095	-76.930	170.165

GWARIANT REFENIW GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT

Cyfanswm Cyllideb Refeniw Net ar gyfer Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar gyfer 2020/21 yw £162.681 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £239.611 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r Gyfadran yn derbyn incwm o £76.930 miliwn sy'n lleihau gwariant net i £162.681 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut bydd yr arian yn cael ei wario i'w weld ar dudalennau dilynol yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2020/21

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif feysydd gwariant sydd wedi'u hariannu gan y Grantiau Refeniw Penodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gwariant gros / incwm fel y bo'n briodol.

Corff Dyfarnu	Pwrpas	Cyfanswm £ miliwn
Cyngor Celfyddydau Cymru	Portffolio Celfyddydau Cymru	0.150
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Rhaglen Gofal Cymunedol ar y Cyd	0.068
Adran Gwaith a Phensiynau	Cymhorthdal Budd-dal Tai – Cynllun Gwely a Brechwast	0.122
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Arwyr Chwaraeon RhCT	0.032
Y Swyddfa Gartref	Comisiynydd Heddlu a Throseddau	0.111
	Darpariaeth Cyfiawnder Ieuencid	0.517
Shaw Trust & Working Links	Cymorthdaliadau ar gyfer Cyflogi Gweithwyr Anabl	0.303
Chwaraeon Cymru	Cynllun Cymunedol Chwaraeon Anabled Cymru	0.020
	Nofio am ddim	0.060
	Cynllun Chwaraeon Lleol	0.475
Llywodraeth Cymru	Grant Dysgu Cymunedol	0.232
	Grant Plant a'r Gymuned	13.442
	Grant Claddu ac Amlosgi Plant	0.048
	Cymunedau am Waith	1.093
	Grant Cymorth Tai	9.070
	Cronfa Gofal Integredig	3.310
	Ysbrydoli i Weithio	0.317
	Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff	0.168
	Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Blant	0.049
	Grant Hwyluso Rhanbarthol	0.066
	Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru	0.556
	Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau	3.810
	Grant Cefnogi Ieuencid	0.712

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL
GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT: MATH O
WARIANT

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
16.736	NJC – Gweithwyr Llaw	16.819
0.894	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	0.887
70.616	NJC APT&C	71.294
1.440	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	1.359
3.053	Arall	3.256
92.739		93.615
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
1.501	Trwsio, a Chynnal a Chadw	1.694
1.899	Ynni	2.038
0.895	Rhenti	0.761
1.427	Treth Leol	1.454
0.426	Dŵr	0.433
0.954	Glanhau/Domestig	0.921
0.034	Arall	0.108
7.136		7.409
	<u>Cludiant</u>	
1.457	Llogi dan gontract	1.591
1.179	Lwfansau Ceir	1.325
0.279	Arall	0.262
2.915		3.178
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
5.017	Offer/Deunyddiau/Celfi	5.274
0.737	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.771
1.044	Darpariaethau	1.004
0.316	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.312
0.451	Grantiau a Chyfraniadau	0.707
3.156	Gwasanaethau	3.173
2.637	Amrywiol	2.938
0.267	Arall	0.260
13.625		14.439
	<u>Trydydd Parti</u>	
5.551	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	8.515
22.757	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	21.657
59.069	Wedi cyflwyno drwy Gontract Preifat	68.092
16.305	Gofal Maeth	16.599
4.868	Cefnogi Pobl	4.868
0.040	Arall	0.041
108.590		119.772
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.201	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.301
0.201		0.301
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.525	Ailgodi Costau	0.523
0.525		0.523
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.389	Arall	0.374
0.389		0.374
226.120	Cyfanswm y Gwariant	239.611
	<u>Incwm</u>	
-32.565	Grantiau gan y Llywodraeth	-35.007
-22.900	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-24.148
-15.537	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-16.016
-1.620	Incwm Mewnol	-1.759
-72.622	Cyfanswm yr Incwm	-76.930
153.498	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU CYMUNED A'R GWASANAETHAU I BLANT	162.681

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT**
GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gwasanaethau i Oedolion</u>	
7.410	Cymorth a Gofal Tymor Hir	7.654
51.723	Gwasanaethau wedi'u Comisiynu	57.533
19.059	Gwasanaethau Darparwyr	19.528
9.480	Ymyrraeth Tymor Byr	9.635
-3.899	Codi Tâl Tecach	-4.353
3.553	Gwasanaethau Rheoli, Diogelu a Chymorth	3.050
87.326		93.047
	<u>Gwasanaethau i Blant</u>	
27.350	Diogelu a Chymorth (gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal)	27.958
6.483	Ymyrraeth Gynnar	8.071
0.928	Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf	0.997
10.776	Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys	11.940
2.129	Gwasanaethau Rheoli a Chymorth	1.992
47.666		50.958
	<u>Trawsnewid</u>	
0.756	Uned Hyfforddiant Rhanbarthol	0.720
0.826	Rheoli Grwpiau a Gweddnewid	0.751
1.100	Gwella Gwasanaethau	1.096
2.682		2.567
	<u>Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned</u>	
5.435	Diogelwch y Cyhoedd	5.333
4.355	Gwasanaethau Cymuned	4.525
0.909	Cymunedau a Lles	0.900
4.973	Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol	5.197
0.152	Cyfarwyddiaeth Cyfadran	0.154
15.824		16.109
153.498	CYFANSWM CYLLIDEB Y GWASANAETHAU CYMUNED A'R GWASANAETHAU I BLANT	162.681

Gwasanaethau i Oedolion

Mae modd dadansoddi Uwchadran Gwasanaethau i Oedolion yn ôl y meysydd gwasanaeth canlynol:

Cymorth a Gofal Tymor Hir

Gwasanaethau lleol sy'n cynnwys asesiadau tymor hwy a rheoli gofal ar gyfer:-

- Pobl Hŷn
- Oedolion sydd â Phroblem Iechyd Meddwl
- Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu
- Oedolion sydd ag Anabledd Corfforol neu Synhwyrdd

Gwasanaethau wedi'u Comisiynu a Gwasanaethau Darparu.

Yn dilyn asesiad, caiff gwasanaethau eu darparu i ddiwallu anghenion unigol. Maen nhw'n cael eu comisiynu yn fewnol, yn annibynnol a thrwy ddarparwyr trydydd parti neu drwy ddarpariaeth taliad uniongyrchol. Mewn ffordd gyffredinol, gall y gwasanaethau gael eu disgrifio fel cymorth yn y cartref, gofal preswyl neu lety â chymorth.

Mae'r gwasanaethau uniongyrchol yn darparu'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol mewnol:

- Llety â Chymorth ar gyfer Pobl sydd ag Anabledd Dysgu
- Gofal Preswyl i Bobl Hŷn
- Gofal Cartref
- Gwasanaethau Oriau Dydd ar gyfer yr holl Grwpiau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Ymyrraeth Tymor Byr

Gwasanaeth Ymyrraeth Tymor Byr sy'n cynnwys:

- Ailalluogi a Gofal Canolradd
- Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref
- Asesiadau Tymor Byr a Rheoli Gofal
- Addasu ac Offer yn y Gymuned
- Gwasanaethau Materion y Synhwyrdd

Mae'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu trwy gyfleuster 'Vision Products' y Cyngor hefyd yn rhan o'r maes gwasanaeth yma.

Codi Tâl Tecach

Incwm sy'n cael ei dderbyn gan gleientiaid (yn dilyn asesiad ariannol ar sail prawf modd) i gyfrannu at gost y gwasanaethau gofal di-breswyl y maen nhw'n eu cael.

Gwasanaethau Rheoli, Diogelu a Chymorth

- Gwasanaethau Diogelu
- Gwasanaethau Cymorth

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU I OEDOLION : MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
15.225	NJC – Gweithwyr Llaw	15.252
0.894	JNC – Gweithdai i Bobl Ddall	0.887
25.240	NJC APT&C	25.073
0.358	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.356
1.545	Arall	1.233
43.262		42.801
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.395	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.393
0.670	Ynni	0.603
0.551	Rhenti	0.563
0.067	Treth Leol	0.047
0.156	Dŵr	0.148
0.488	Glanhau/Domestig	0.368
0.005	Arall	0.005
2.332		2.127
	<u>Cludiant</u>	
0.944	Llogi dan gontract	1.114
0.564	Lwfansau Ceir	0.666
0.095	Arall	0.097
1.603		1.877
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
3.450	Offer/Deunyddiau/Celfi	3.673
0.214	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.210
0.801	Darpariaethau	0.760
0.137	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.135
0.008	Grantiau a Chyfraniadau	0.020
0.250	Gwasanaethau	0.354
0.503	Amrywiol	0.629
0.060	Arall	0.059
5.423		5.840
	<u>Trydydd Parti</u>	
1.398	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	1.405
14.957	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	15.271
51.148	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	57.660
0.017	Arall	0.017
67.520		74.353
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.201	Ailgodi Costau	0.200
0.201		0.200
120.341	Cyfanswm y Gwariant	127.198
	<u>Incwm</u>	
-6.652	Grantiau gan y Llywodraeth	-6.652
-21.577	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-22.461
-3.733	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-3.985
-1.053	Incwm Mewnol	-1.053
-33.015	Cyfanswm yr Incwm	-34.151
87.326	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU I OEDOLION	93.047

Gwasanaethau i Blant

Bwriad yr Uwchadran yw darparu gwasanaethau statudol i blant sydd:

- yn diogelu plant rhag cael eu cam-drin, gwella cyfleoedd byw plant sydd mewn angen ac sy'n derbyn gofal, gan ystyried eu dymuniadau a theimladau sy'n cael eu mesur drwy asesiadau angen unigol ac adolygiadau
- drwy bartneriaethau ag asiantaethau eraill ac yn sicrhau 'Gwerth Gorau' wrth ddefnyddio'r adnoddau sy'n cael eu darparu ar gyfer y gwasanaethau yma

Mae'r gwasanaethau yma'n cael eu trefnu a'u darparu drwy'r meysydd gwasanaeth canlynol:

Diogelu a Chymorth

- Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol – wedi'u darparu gan Wasanaeth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd
- Diogelu a Safonau

Ymyrraeth Gynnar

- Atal ac Ymyrraeth Gynnar (gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar)
- Gwasanaethau'r Gymuned a Chymorth i Deuluoedd
- Gwasanaethau i Bobl Ifainc
- Dyletswydd Frys

Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf

- Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc – Gwasanaeth Rhanbarthol yn cael ei ddarparu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys

- Gwasanaethau Asesu a Chynllunio Gofal
- Gwasanaethau i Blant Anabl
- Ôl-ofal

Gwasanaethau Rheoli a Chymorth – rhoi gwasanaethau cymorth rheoli ar draws yr Adran.

Busnes craidd yr Adran yw darparu gwasanaethau o safon ar gyfer plant a phobl ifainc mewn angen gan ddiogelu a hyrwyddo'u llesiant. Mae Cynllun y Gwasanaethau i Blant yn nodi gwerthoedd, nodau polisi a datblygiadau blaenoriaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'n bwysig nodi bod darparu gwasanaethau yn gynhwysfawr, wedi'i reoleiddio ac yn orfodol: gofyniad canllawiau deddfwriaeth, rheoliad ac ymarfer.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU I BLANT: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
0.082	NJC – Gweithwyr Llaw	0.056
22.490	NJC APT&C	23.262
0.452	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.449
0.428	Arall	1.030
23.452		24.797
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.075	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.077
0.087	Ynni	0.089
0.220	Rhenti	0.106
0.090	Treth Leol	0.084
0.017	Dŵr	0.019
0.188	Glanhau/Domestig	0.160
0.004	Arall	0.083
0.681		0.618
	<u>Cludiant</u>	
0.417	Llogi dan gontract	0.378
0.435	Lwfansau Ceir	0.469
0.052	Arall	0.040
0.904		0.887
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.154	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.203
0.087	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.056
0.107	Darpariaethau	0.109
0.041	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.039
0.092	Grantiau a Chyfraniadau	0.095
1.418	Gwasanaethau	1.581
0.513	Amrywiol	0.892
0.016	Arall	0.023
2.428		2.998
	<u>Trydydd Parti</u>	
2.540	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	2.339
3.766	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	3.909
7.710	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	10.303
16.305	Gofal Maeth	16.599
30.321		33.150
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.201	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.301
0.201		0.301
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.217	Ailgodi Costau	0.215
0.217		0.215
58.204	Cyfanswm y Gwariant	62.966
	<u>Incwm</u>	
-9.139	Grantiau gan y Llywodraeth	-10.805
-0.620	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.450
-0.696	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-0.609
-0.083	Incwm Mewnol	-0.144
-10.538	Cyfanswm yr Incwm	-12.008
47.666	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU I BLANT	50.958

Trawsnewid

Mae'r Adran yma'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau cymorth mewnol ar lefel a chost sy'n bodloni holl ofynion darparwyr gwasanaethau uniongyrchol y Gwasanaethau Cymuned a'r Gwasanaethau i Blant.

Mae'r gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu gan yr Adran yma yn cynnwys:

Uned Hyfforddiant Rhanbarthol

- Gofal Cymdeithasol – gwasanaeth hyfforddi a datblygu rhanbarthol wedi'i ddarparu ar ran Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr

Gwella Gwasanaethau

- System Cymorth TGCh a Rheoli Gwybodaeth
- Cwynion, Sicrhau Ansawdd ac Ymgynghoriadau i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth
- Rheoli Prosiectau a Newid Gwasanaethau
- Rheoli Cyflawniad

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**TRAWSNEWID: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
2.477	NJC APT&C	2.307
0.236	Cydgynghor Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.161
0.000	Arall	0.003
2.713		2.471
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.039	Rhenti	0.005
0.030	Glanhau/Domestig	0.002
0.069		0.007
	<u>Cludiant</u>	
0.025	Lwfansau Ceir	0.024
0.004	Arall	0.003
0.029		0.027
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.032	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.013
0.143	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.147
0.024	Darpariaethau	0.007
0.018	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.008
0.011	Grantiau a Chyfraniadau	0.000
0.190	Gwasanaethau	0.064
0.141	Amrywiol	0.367
0.004	Arall	0.009
0.563		0.615
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.003	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.035
0.299	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	0.496
0.195	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	0.129
0.497		0.660
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.017	Ailgodi Costau	0.018
0.017		0.018
3.888	Cyfanswm y Gwariant	3.798
	<u>Incwm</u>	
-0.570	Grantiau gan y Llywodraeth	-0.622
-0.578	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.551
-0.058	Incwm Mewnol	-0.058
-1.206	Cyfanswm yr Incwm	-1.231
2.682	CYLLIDEB NET TRAWSNEWID	2.567

Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned

Mae'r Gyfadran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a'r Gymuned yn darparu ystod eang o wasanaethau ac mae modd eu dadansoddi yn ôl y meysydd canlynol.

Diogelwch y Cyhoedd

- Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
- Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol)
- Iechyd yr Amgylchedd (Cymdogaethau)
- Safonau Masnach a'r Gwasanaethau Cofrestru
- Tai â Chymorth a Chyngor ar Dai

Gwasanaethau Cymuned

- Llyfrgelloedd
- Canolfannau yn y Gymuned
- Gwasanaeth Addysg i Oedolion
- Gwasanaethau Cymraeg
- Rhaglenni Cyflogaeth
- Rheoli Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Gwasanaethau Celfyddydol a Diwylliannol

Cymunedau a Lles

- Comisiynu Gwasanaethau i Blant a Chymunedau
- Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau

Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Gwasanaethau Diwylliannol

- Gweithredwyr Gwasanaethau Hamdden (Canolfannau Hamdden a Chwaraeon)
- Strategaeth Hamdden
- Strategaeth Chwarae (gan gynnwys Meysydd Chwarae a Chanolfannau Cymuned)
- Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Gwasanaethau Profedigaethau
- Atyniadau i Ymwelwyr a'r Gwasanaeth Treftadaeth

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL
IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED: MATH O
WARIANT

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
1.429	NJC – Gweithwyr Llaw	1.511
20.409	NJC APT&C	20.652
0.394	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.393
1.080	Arall	0.990
23.312		23.546
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
1.031	Trwsio, a Chynnal a Chadw	1.224
1.142	Ynni	1.346
0.085	Rhenti	0.087
1.270	Treth Leol	1.323
0.253	Dŵr	0.266
0.248	Glanhau/Domestig	0.391
0.025	Arall	0.020
4.054		4.657
	<u>Cludiant</u>	
0.096	Llogi dan gontract	0.099
0.155	Lwfansau Ceir	0.166
0.128	Arall	0.122
0.379		0.387
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
1.381	Offer/Deunyddiau/Celfi	1.385
0.293	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.358
0.112	Darpariaethau	0.128
0.120	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.130
0.340	Grantiau a Chyfraniadau	0.592
1.298	Gwasanaethau	1.174
1.480	Amrywiol	1.050
0.187	Arall	0.169
5.211		4.986
	<u>Trydydd Parti</u>	
1.610	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	4.736
3.735	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	1.981
0.016	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	0.000
4.868	Cefnogi Pobl	4.868
0.023	Arall	0.024
10.252		11.609
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.090	Ailgoddi Costau	0.090
0.090		0.090
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.389	Arall	0.374
0.389		0.374
43.687	Cyfanswm y Gwariant	45.649
	<u>Incwm</u>	
-16.204	Grantiau gan y Llywodraeth	-16.928
-0.125	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.686
-11.108	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-11.422
-0.426	Incwm Mewnol	-0.504
-27.863	Cyfanswm yr Incwm	29.540
15.824	CYLLIDEB NET IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A'R GYMUNED	16.109

**RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y GWASANAETHAU CYMUNED
A'R GWASANAETHAU I BLANT**

	CYLLIDEB		
	2020/21	2021/22	2022/23
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<u>Gwasanaethau Uniongyrchol, Busnes, a Thai</u>			
Rhaglen Foderneiddio (Oedolion)	4.500	1.300	1.200
Rhaglen Foderneiddio (Plant)	0.050	0.050	0.050
Gwaith Ymdrin ag Asbestos	0.045	0.045	0.045
Offer Teleofal (gan gynnwys Offer 'Carelink')	0.300	0.200	0.200
Gwasanaethau Uniongyrchol, Busnes a Thai – Cyfanswm	4.895	1.595	1.495
<u>Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd</u>			
Rhaglen Ailwampio'r Canolfannau Hamdden	0.090	0.090	0.090
Parciau a Chefn Gwlad	1.200	0.100	0.100
Mannau Chwarae	0.644	0.050	0.050
Rhaglen Mynwentydd Arfaethedig	0.135	0.135	0.135
Mentrau Cymunedau Diogel	0.050	0.050	0.050
Canolfannau yn y Gymuned	0.400	0.000	0.000
Diwylliant	0.020	0.020	0.020
Adeiladau	0.050	0.050	0.050
Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – Cyfanswm	2.589	0.495	0.495
CYFANSWM CYLLIDEB Y GWASANAETHAU CYMUNED A'R GWASANAETHAU I BLANT	7.484	2.090	1.990

* Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2019/2020, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno ar y rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

Dyma'r blaenoriaethau a gafodd eu cytuno ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:

- Datblygu arweinwyr sy'n ysbrydoli eraill gan weithio ar y cyd i wella addysgu, dysgu a deilliannau i bawb
- Datblygu ysgolion cadarn a chynhwysol sy'n ymrói i ragoriaeth, tegwch, a lles
- Datblygu Sefydliadau Dysgu'r 21^{ain} Ganrif
- Adolygu ein gwasanaethau a'u gwella ymhellach, i sicrhau eu bod nhw'n barod ar gyfer y dyfodol a'u bod nhw'n hygyrch

Mae dau brif faes gwasanaeth:


- Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)
- Ysgolion Dirprwyedig

Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ym mlwyddyn ariannol 2020/21 yw:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	25.243	0.000	25.243
Refeniw'r Gronfa Gyffredinol	225.544	-32.917	192.627
Cyfanswm	250.787	-32.917	217.870

GWARIANT REFENIW'R GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT

Cyfanswm Cyllideb Refeniw Net y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ar gyfer 2020/21 yw £192.627 miliwn. Cyfanswm amcangyfrifedig y gwariant gros yw £225.544 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r incwm sydd wedi'i dderbyn o £32.917 miliwn yn gostwng y gwariant gros i £192.627 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut y bydd yr arian yma'n cael ei wario i'w weld ar y tudalennau dilynol yn yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2020/21

Mae'r tabl isod yn nodi grantiau refeniw penodol.

Corff Dyfarnu	Pwrpas	Swm £ miliwn
Llywodraeth Cymru	Darpariaeth ysgol i ddisgyblion dros 16 oed	9.805
	Cyfnod Sylfaen – Grant Gwella Addysg	0.145
	Grant Gwella Addysg – Ysgolion Dirprwyedig	9.010
	Grant Gwella Addysg –Gweinyddu	0.018
	Grant Datblygu Disgyblion	7.238
	Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (amcangyfrif)	1.732
	Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal	0.358
	Grant Dysgu Proffesiynol (amcangyfrif)	0.944
	Rhwydwaith Seren	0.045
	Gofal Plant – Meithrinfa	2.549
	Gofal Plant Meithrin – Gwaith Gweinyddol	0.279
	Grant Trawsnewid - Anghenion Dysgu Ychwanegol	0.753
	Grant Gostwng Maint Dosbarthiadau Babanod	0.432
	Urddas Mislif yn y Gymuned	0.018
	Urddas Mislif yn yr Ysgol	0.093
	TGCh — Grant Hwb ar gyfer Seilwaith mewn Ysgolion	0.242
	Grant Clybiau Gofal tu allan i oriau ysgol	0.083
	Grant Addysg – Lles Emosiynol	0.121
	Grant Addysg – Mynediad at Grant Amddifadedd Disgyblion o Gefndir Ethnig, Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma neu Deithwyr	0.243
	Grant Addysg – Mynediad at Grant Amddifadedd Disgyblion – Grant gwisg ysgol	0.504
Asiantaeth Taliadau Gwledig	Llaeth i Fabanod (amcangyfrif)	0.471

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
115.114	Burnham	127.474
13.122	NJC – Gweithwyr Llaw	13.330
17.552	NJC APT&C	17.906
1.957	Soulbury	1.926
0.302	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.354
0.012	Cydgyngror Trafod Telerau – Arweinwyr Ieuenctid	0.012
2.872	Arall	3.094
150.931		164.096
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
4.467	Trwsio, a Chynnal a Chadw	4.156
0.616	Cynnal a chadw tiroedd	0.615
3.192	Ynni	3.008
0.064	Rhenti	0.072
3.417	Treth Leol	3.443
0.051	Dŵr	0.051
6.013	Glanhau/Domestig	6.029
0.279	Yswiriant	0.279
18.099		17.653
	<u>Cludiant</u>	
0.039	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.044
0.140	Llogi dan gontract	0.140
0.001	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.001
0.110	Lwfansau Ceir	0.114
0.290		0.299
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
7.909	Offer/Deunyddiau/Celfi	9.074
0.052	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.028
4.288	Darpariaethau	4.345
0.055	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.058
11.208	Grantiau a Chyfraniadau	12.188
6.998	Gwasanaethau	7.085
1.737	Arall	1.895
32.247		34.673
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.590	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.490
1.208	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	1.708
1.798		2.198

0.668 0.668	<u>Taliadau Trosglwyddo</u> Plant ysgol/Myfyrwyr	0.623 0.623
0.011 0.011	<u>Gwasanaethau Cymorth</u> Ailgodi Costau	0.011 0.011
5.635 5.635	<u>Cyllid Cyfalaf</u> Arall	5.991 5.991
209.679	Cyfanswm y Gwariant	225.544
-18.356 -0.582 -6.088 -5.155	<u>Incwm</u> Grantiau gan y Llywodraeth Ad-daliadau/Grantiau eraill Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid Incwm Mewnol	-20.059 -0.994 -6.223 -5.641
-30.181	Cyfanswm yr Incwm	-32.917
179.498	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYHNHWYSIANT	192.627

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL**

Cyllideb 2019/20		2020/21 Cyllideb
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant (Heb ei Ddirprwyo)</u>	
1.261	Cyflawniad Ysgol	1.124
0.898	Grant Gwella Addysg	0.866
0.442	Trawsfurfio'r Gwasanaeth a Systemau Gwybodaeth Addysg	0.438
5.897	Anghenion Dysgu Ychwanegol	5.959
2.396	Addysg Heblaw yn yr Ysgol	2.778
0.634	Y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles	0.682
5.280	Meithrin a Blynyddoedd Cynnar	5.173
2.497	Cyfarwyddiaeth Cyfadran	2.626
0.136	Gwasanaeth Cerdd	0.135
	<u>Ysgolion yr 21ain Ganrif</u>	
1.493	Ad-drefnu a Chynllunio Ysgolion	1.381
3.940	Arlwyo	6.869
3.018	Rheoli Asedau	3.018
27.892		31.049
	<u>Ysgolion Dirprwyedig</u>	
71.048	Ysgolion Cynradd	73.564
52.447	Ysgolion Uwchradd	54.732
19.498	Ysgolion Canol	24.051
8.613	Ysgolion Arbennig	9.231
151.606		161.578
179.498	CYFANSWM CYLLIDEB Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT	192.627

Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant (Heb ei Ddirprwyo)

Pwrpas y maes gwasanaeth yma yw codi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad a sicrhau'r profiad addysgol gorau i bob disgybl yn ein hysgolion. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Cyflawniad Ysgol
- Grant Gwella Addysg
- Trawsnewid y Gwasanaeth a Systemau Gwybodaeth Addysg
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
- Meithrin a Blynyddoedd Cynnar
- Cyfarwyddiaeth Cyfadran
- Gwasanaeth Cerdd
- Ysgolion yr 21ain Ganrif – yn cynnwys Ad-drefnu a Chynllunio Ysgolion, Arlwyo a Rheoli Asedau

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETH ADDYSG A CHYNHWYSIANT (HEB EI DDIRPRWYO):
MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
3.846	Burnham	4.780
7.694	NJC – Gweithwyr Llaw	7.702
9.742	NJC APT&C	9.674
1.957	Soulbury	1.926
	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif	
0.302	Swyddogion	0.354
	Cydgyngror Trafod Telerau – Arweinwyr	
0.012	Ieuenctid	0.012
1.552	Arall	1.575
25.105		26.023
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.859	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.870
0.003	Cynnal a chadw tiroedd	0.005
0.052	Ynni	0.069
0.064	Rhenti	0.072
0.004	Treth Leol	0.010
0.011	Dŵr	0.011
3.671	Glanhau/Domestig	3.680
4.664		4.717
	<u>Cludiant</u>	
0.039	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.044
0.140	Llogi dan gontract	0.140
0.001	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.001
0.105	Lwfansau Ceir	0.109
0.285		0.294
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.546	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.540
0.052	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.028
4.283	Darpariaethau	4.340
0.055	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.058
10.623	Grantiau a Chyfraniadau	10.519
1.545	Gwasanaethau	4.640
0.476	Arall	0.479
17.580		20.604
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.590	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.490
1.208	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	1.708
1.798		2.198
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.599	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.549
0.599		0.549

	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.011	Ailgodi Costau	0.011
0.011		0.011
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.171	Arall	0.171
0.171		0.171
50.213	Cyfanswm y Gwariant	54.567
	<u>Incwm</u>	
-10.495	Grantiau gan y Llywodraeth	-10.660
-0.583	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.994
-6.088	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-6.223
-5.155	Incwm Mewnol	-5.641
-22.321	Cyfanswm yr Incwm	-23.518
27.892	CYLLIDEB NET Y GWASANAETH ADDYSG A CHYNHWYSIANT (HEB EI DDIRPRWYO)	31.049

Ysgolion Dirprwyedig

Mae'r maes gwasanaeth yma'n ymwneud â'r canlynol:

- Cyllidebau Ysgolion Unigol – Ysgolion Cynradd
- Cyllidebau Ysgolion Unigol – Ysgolion Uwchradd
- Cyllidebau Ysgolion Unigol – Ysgolion Canol
- Cyllidebau Ysgolion Unigol – Ysgolion Arbennig

Mae cyllideb pob ysgol yn cael ei chyfrifo yn unol â chanllawiau ar gyfer fformiwla ariannu ac yn cael ei dirprwyo i'r ysgolion unigol er mwyn iddyn nhw reoli eu cyllidebau eu hunain.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**YSGOLION DIRPRWYEDIG: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
111.268	Burnham	122.694
5.428	NJC – Gweithwyr Llaw	5.628
7.810	NJC APT&C	8.232
1.320	Arall	1.519
125.826		138.073
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
3.608	Trwsio, a chynnal a chadw	3.286
0.613	Cynnal a chadw tiroedd	0.610
3.140	Ynni	2.939
3.413	Treth Leol	3.433
0.040	Dŵr	0.040
2.342	Glanhau/Domestig	2.349
0.279	Yswiriant	0.279
13.435		12.936
	<u>Cludiant</u>	
0.005	Lwfansau Ceir	0.005
0.005		0.005
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
7.363	Offer/Deunyddiau/Celfi	8.534
0.005	Darpariaethau	0.005
0.584	Grantiau a Chyfraniadau	1.669
5.454	Gwasanaethau	2.445
1.261	Arall	1.416
14.667		14.069
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.069	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.074
0.069		0.074
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
5.464	Arall	5.820
5.464		5.820
159.466	Cyfanswm y Gwariant	170.977
	<u>Incwm</u>	
-7.860	Grantiau gan y Llywodraeth	-9.399
-7.860	Cyfanswm yr Incwm	-9.399
151.606	CYLLIDEB YSGOLION HEB EI DYRANNU	161.578

**GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT –
RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD**

	CYLLIDEB		
	2020/21	2021/22	2022/23
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<u>Ysgolion</u>			
Moderneiddio Ysgolion Cwm Rhondda a Thonyrefail	4.862	0.052	0.000
Moderneiddio Ysgolion	2.440	0.140	0.140
Ysgol Gynradd Gymuned Cwmaman	0.030	0.000	0.000
Gwaith Ailwampio Ysgol Gynradd Ffynnon Taf ac Adeiladu Estyniad	1.614	0.000	0.000
Lleihau Niferoedd y Dosbarth Babanod	0.652	0.000	0.000
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Rhaglen Moderneiddio Ysgolion	0.500	0.000	0.000
Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru	0.020	0.000	0.000
Grant Gofal Plant Llywodraeth Cymru	3.263	0.025	0.000
Ysgol Gynradd Hirwaun	6.077	0.330	0.024
Ysgolion – Cyfanswm	19.458	0.547	0.164
<u>Rhaglen Gyfalaf Atodol</u>			
Gwaith arfaethedig i adnewyddu'r ceginau	0.350	0.200	0.200
Gosod ffenestri a drysau newydd	0.180	0.150	0.150
Gwaith hanfodol	1.662	0.400	0.400
Cyfalafu Caledwedd/Meddalwedd	0.267	0.250	0.250
Cyfrifiaduron a Thrwyddedau			
Adnewyddu toeau	0.900	0.700	0.700
Gosod boeleri newydd	0.350	0.250	0.250
Deddf Cydraddoldeb / Gwaith Cydymffurfio	0.225	0.225	0.225
Arolygon Cyflwr Addysg a Dysgu Gydol Oes	0.050	0.050	0.050
Ailwifro trydanol	0.200	0.200	0.200
Gwaith Ymdrin ag Asbestos	0.950	0.900	0.900
Diweddarau'r larymau tân	0.100	0.100	0.100
Adnewyddu'r tai bach	0.420	0.350	0.350
Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion	0.031	0.000	0.000
Gwella'r Ysgolion	0.100	0.100	0.100
Rhaglen Gyfalaf Atodol – Cyfanswm	5.785	3.875	3.875
CYFANSWM CYLLIDEB Y GWASANAETHAU ADDYSG A CHYNHWYSIANT	25.243	4.422	4.039

* Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2019/2020, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno ar y rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PRIF WEITHREDWR

TROSOLWG Y PRIF WEITHREDWR


Mae'r gyfadran yma'n cynnwys swyddogaethau rheng flaen (h.y. Budd-daliadau Tai, Treth y Cyngor, Pensiynau, Cofrestru Etholiadol a Gofal i Gwsmeriaid) a chymorth corfforaethol (h.y. Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, Adnoddau Dynol, Cyfreithiol, Cyllid, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Gwasanaethau Digidol ac Eiddo'r Cyngor) sy'n sail i'r gallu i ddarparu gwasanaethau ar draws yr holl gyfadranau.

Cyfanswm yr adnoddau sydd ar gael i Gyfadran y Prif Weithredwr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 yw:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	2.019	0.000	2.019
Refeniw'r Gronfa Gyffredinol	40.649	-13.610	27.039
Cyfanswm	42.668	-13.610	29.058

GWARIANT REFENIW CYFADRAN Y PRIF WEITHREDWR

Y Gwariant Refeniw Net ar gyfer Cyfadran y Prif Weithredwr ar gyfer 2020/21 yw £27.039 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £40.649 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r Gyfadran yn derbyn incwm o £13.610 miliwn sy'n lleihau gwariant net i £27.039 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut y bydd yr arian yma'n cael ei wario i'w weld ar y tudalennau dilynol yn yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2020/21

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif feysydd gwariant sydd wedi'u hariannu gan y Grantiau Refeniw Penodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gwariant gros / incwm fel y bo'n briodol.

Corff Dyfarnu	Pwrpas	Cyfanswm £ miliwn
Adran Gwaith a Phensiynau	Cymhorthdal Gweinyddu Budd-daliadau Tai	0.779
Llywodraeth Cymru	Grant Gweinyddu Ardrethi Annomestig	0.394

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**PRIF WEITHREDWR: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
0.183	NJC – Gweithwyr Llaw	0.186
25.210	NJC APT&C	25.595
2.335	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	2.244
0.258	Arall	0.304
27.986		28.329
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.716	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.772
0.022	Cynnal a chadw tiroedd	0.022
0.517	Ynni	0.621
0.120	Rhenti	0.206
0.942	Treth Leol	1.164
0.065	Dŵr	0.073
0.110	Glanhau/Domestig	0.199
2.492		3.057
	<u>Cludiant</u>	
0.017	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.018
0.001	Llogi dan gontract	0.001
0.014	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.014
0.131	Lwfansau Ceir	0.130
0.163		0.163
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.929	Offer/Deunyddiau/Celfi	1.177
2.099	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	3.036
0.018	Darpariaethau	0.019
0.497	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.503
0.134	Hysbysebu	0.067
0.188	Grantiau a Chyfraniadau	0.189
0.033	Costau'r Aelodau	0.033
1.937	Gwasanaethau	1.996
0.524	Amrywiol	0.563
0.030	Arall	0.031
6.389		7.614
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.285	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.293
0.050	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	0.050
0.335		0.343
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.010	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.010
0.010		0.010

0.043	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	0.044
0.043	Ailgodi Costau	0.044
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.201	Arall	1.089
0.201		1.089
37.619	Cyfanswm y Gwariant	40.649
	<u>Incwm</u>	
-1.182	Grantiau gan y Llywodraeth	-1.178
-1.823	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-1.936
-2.906	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-3.816
-5.896	Incwm Mewnol	-6.680
-11.807	Cyfanswm yr Incwm	-13.610
25.812	CYLLIDEB NET Y PRIF WEITHREDWR	27.039

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL
PRIF WEITHREDWR: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Prif Weithredwr</u>	
0.395	Gwasanaethau Cyffredin	0.391
0.395		0.391
	<u>Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu</u>	
2.859	Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu	2.913
2.859		2.913
	<u>Adran Adnoddau Dynol</u>	
	<u>Adran Adnoddau Dynol</u>	
0.529	Gwasanaethau Cymorth	0.536
1.381	Cysylltiadau â'r gweithwyr	1.329
1.956	Datblygu'r Gyfundrefn	2.046
3.866	Adnoddau Dynol – Cyfanswm	3.911
	<u>Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion</u>	
0.000	Yr Adran Bensiynau	0.000
0.570	Caffael	0.563
2.381	Gwasanaethau Trafodion	2.196
2.951	Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion – Cyfanswm	2.759
6.817	Adnoddau Dynol – Cyfanswm	6.670
	<u>Gwasanaethau Cyfreithiol</u>	
1.342	Gwasanaethau Cyfreithiol	1.249
0.280	Gweinyddu Cyfreithiol	0.387
1.622	Y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cyfanswm	1.636
	<u>Gwasanaethau Cyllid a Digidol</u>	
	<u>Cyllid</u>	
3.314	Rheoli Cyllid, Cyfrifeg ac Archwilio Mewnol	3.414
0.038	Partneriaethau Gwasanaeth Cyhoeddus	0.038
3.352	Gwasanaethau Cyllid – Cyfanswm	3.452
	<u>Gwasanaethau TGCh a Digidol</u>	
4.944	Gwasanaethau TGCh a Digidol	5.940
4.944	Gwasanaethau TGCh a Digidol – Cyfanswm	5.940
	<u>Gofal i Gwsmeriaid</u>	
0.366	Canolfannau lBobUn	0.363
0.319	Rheoli Strategol	0.039
0.907	Canolfannau Galwadau	0.894
0.225	E-Lywodraethu	0.451
0.547	Uned Cymorth i Fusnesau	0.578
2.364	Gofal i Gwsmeriaid – Cyfanswm	2.325
10.660	Gwasanaethau Cyllid a Digidol - Cyfanswm	11.717
	<u>Eiddo'r Cyngor</u>	
0.080	Rheoli Safleoedd sy'n Weddill	0.008
-0.147	Tir ac Eiddo Amrywiol	-0.083
1.691	Adran Rheoli Eiddo'r Cyngor	1.476
1.835	Swyddfeydd	2.311
3.459	Eiddo'r Cyngor – Cyfanswm	3.712
25.812	CYFANSWM CYLLIDEB Y PRIF WEITHREDWR	27.039

Uned y Prif Weithredwr (Gwasanaethau Cyffredin)

Prif swyddogaeth yr uned yw chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Swyddfa'r Prif Weithredwr.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL

UNED Y PRIF WEITHREDWR: MATH O WARIANT

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
0.048	NJC APT&C	0.047
0.211	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.210
0.259		0.257
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.001	Glanhau/Domestig	0.001
0.001		0.001
	<u>Cludiant</u>	
0.001	Lwfansau Ceir	0.001
0.001		0.001
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.001	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.000
0.000	Darpariaethau	0.001
0.003	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.001
0.129	Grantiau a Chyfraniadau	0.129
0.001	Arall	0.001
0.134		0.132
0.395	Cyfanswm y Gwariant	0.391
0.395	CYLLIDEB NET UNED Y PRIF WEITHREDWR	0.391

Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mae'r Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn rhan o Gyfadran y Prif Weithredwr. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau democrataidd a phrosesau llywodraethu'r Cyngor.

Mae hefyd yn gyfrifol am weithgarwch Cyfathrebu'r Cyngor, Polisiâu Corfforaethol ac Ymgysylltu â Thrigolion. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Democrataidd (Uned Busnes y Cyngor)
- Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
- Gwasanaethau Pwyllgorau a Chraffu
- Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa'r Maer
- Y Wasg a Chyfathrebu (gan gynnwys y Wefan, y Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfathrebu Mewnol)
- Cysylltiadau Cyhoeddus
- Polisi Corfforaethol ac Ymgynghori

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
2.436	NJC APT&C	2.560
0.095	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.095
0.120	Arall	0.126
2.651		2.781
	<u>Cludiant</u>	
0.006	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.006
0.001	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.002
0.004	Lwfansau Ceir	0.003
0.011		0.011
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.010	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.010
0.010	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.010
0.011	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.009
0.096	Hysbysebu	0.029
0.031	Costau'r Aelodau	0.032
0.010	Gwasanaethau	0.010
0.028	Amrywiol	0.030
0.001	Arall	0.000
0.197		0.130
2.859	Cyfanswm y Gwariant	2.922
	<u>Incwm</u>	
0.000	Incwm Mewnol	-0.009
0.000		-0.009
2.859	CYFANSWM NET Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU	2.913

Adran Adnoddau Dynol

Mae'r gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yn rhan o Gyfadran y Prif Weithredwr, sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn aelod pwysig o'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r maes gwasanaeth wedi datblygu Strategaeth Adnoddau Dynol sy'n amlinellu sut y byddwn yn cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth a chyflawni'r blaenoriaethau fel sy wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd y strategaeth yn sicrhau bod y Cyngor:

- yn recriwtio'r gweithwyr gorau yn y farchnad lafur, a'u cadw nhw; ac
- yn datblygu staff i sicrhau bod y gweithlu'n cyrraedd ei botensial drwy feddu ar y gallu, y cydnerthedd, a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni heriau a chyfleoedd yn y dyfodol

Mae'r Strategaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys dwy sail strategol er mwyn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth, wedi'i seilio ar bum thema allweddol ar gyfer gweithredu. Er mwyn cefnogi'r strategaeth, mae'r maes gwasanaeth yn gweithredu o fewn y meysydd swyddogaeth canlynol:

- **Mae'r Gwasanaeth Cysylltiadau â Gweithwyr** yn cynghori ar recriwtio, hysbysebu, iechyd a diogelwch, polisi a chynigion ar gyfer newid sefydliadol a gweithio i sicrhau bod polisiau a phrosesau cyflogaeth y Cyngor yn cydymffurfio â chyfraith Genedlaethol ac Ewropeaidd.
- **Caiff swyddogaethau Gwasanaeth Datblygu'r Gyfundrefn** ei rhannu'n 4 carfan: Datblygu Pobl, Datblygu'r Gweithlu (gan gynnwys gwerthuso swyddi), Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant, ac Iechyd Galwedigaethol a Lles.
- **Mae gyda'r Garfan Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Lluoedd Arfog** swyddogaeth strategol o fewn yr adran Adnoddau Dynol. Mae'r garfan yn cydweithio'n agos â'r meysydd gwasanaeth eraill i gyflawni ei hamcanion cydraddoldeb, a hi sy'n datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r garfan hefyd yn gyfrifol am gydlynu ymrwymiad y Cyngor i Gyfamod y Lluoedd Arfog.
- **Y Gwasanaeth Pensiynau** sy'n gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran y Cyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd. Mae'r Cyflogwyr yma'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun, naill ai fel Cyrff Rhestredig, Cyrff Dynodedig neu Gyrff a Dderbyniwyd.
- **Mae'r Gwasanaethau Caffael Corfforaethol** yn gyfrifol am yr holl gaffael ar gyfer y Cyngor. Mae caffaeliadau cyffredin a gwerth uwch yn cael eu cynnal yn uniongyrchol gan yr uned neu ar y cyd â phartneriaid cydweithredol tra bo gwariant gwerth is ac archebion yn ôl y galw yn cael eu gwneud o fewn Cyfarwyddiaethau'r Cyngor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau RhCT. Mae'r gwasanaeth hefyd bellach yn cynnwys yr Uned Rheoli Ynni.

- **Mae'r Gwasanaethau Trafodion** yn cwmpasu amrywiaeth o swyddogaethau cymorth i fusnesau craidd y Cyngor, sy'n cynnwys y Gyflogres, Taliadau Credydwyd, Rheoli Credyd, a'r Garfan Twyll Corfforaethol. Hefyd wedi'u cynnwys, mae swyddogaethau ariannol rheng flaen allweddol statudol i gwsmeriaid a thrigolion Rhondda Cynon Taf ar gyfer Budd-daliadau, Treth y Cyngor ac Ardrethi Busnes.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**ADNODDAU DYNOL: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
0.053	NJC – Gweithwyr Llaw	0.052
9.034	NJC APT&C	8.926
0.546	Cydgynghor Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.542
0.136	Arall	0.176
9.769		9.696
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.001	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.001
0.000	Ynni	0.000
0.001		0.001
	<u>Cludiant</u>	
0.001	Llogi dan gontract	0.001
0.004	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.004
0.041	Lwfansau Ceir	0.040
0.046		0.045
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.022	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.022
0.428	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.433
0.018	Darpariaethau	0.018
0.051	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.051
0.030	Hysbysebu	0.030
0.028	Grantiau a Chyfraniadau	0.028
0.487	Gwasanaethau	0.505
0.160	Amrywiol	0.160
0.017	Arall	0.017
1.241		1.264
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.050	Wedi cyflwyno gan Gontract Preifat	0.050
0.050		0.050
	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	
0.010	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.010
0.010		0.010
11.117	Cyfanswm y Gwariant	11.066
	<u>Incwm</u>	
-1.182	Grantiau gan y Llywodraeth	-1.173
-0.129	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.129
-0.890	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-0.898
-2.099	Incwm Mewnol	-2.196
-4.300	Cyfanswm yr Incwm	-4.396
6.817	CYLLIDEB NET ADNODDAU DYNOL	6.670

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Uwchadran yn rhan allweddol o Gyfadran y Prif Weithredwr sy'n rhoi cymorth cyfreithiol ar faterion corfforaethol ac i gleientiaid y Cyngor, ei Aelodau a Swyddogion. Mae gyda'r Uwchadran swyddogaethau sy'n 'ymwneud â chwsmeriaid'; e.e. Cofrestru Etholiadol a materion corfforaethol mewnol. Mae'n cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaethau cyfreithiol ar faterion corfforaethol ac i gleientiaid;
- Cefnogaeth Gyfreithiol i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu;
- Gwasanaethau Etholiadol (Cofrestru Etholiadol a Chynnal Etholiadau);
- Uned Llywodraethu Corfforaethol (Rhyddid Gwybodaeth a Thrin Cwynion yr Ombwdsmon); a
- Cefnogi swyddogaeth a darpariaeth gwasanaeth Crwner Ei Mawrhydi

Mae'r Adran hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth canolog, sydd wrth wraidd democratiaeth leol. Heb y ddemocratiaeth yma, fyddai dim modd cynnal y Cyngor.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
1.778	NJC APT&C	1.889
0.379	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.376
0.002	Arall	0.002
2.159		2.267
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.002	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.005
0.089	Rhenti	0.098
0.003	Glanhau/Domestig	0.003
0.094		0.106
	<u>Cludiant</u>	
0.004	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.004
0.010	Lwfansau Ceir	0.010
0.014		0.014
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.074	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.069
0.080	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.076
0.070	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.081
0.006	Hysbysebu	0.007
0.002	Costau'r Aelodau	0.001
1.410	Gwasanaethau	1.458
0.117	Amrywiol	0.115
0.001	Arall	0.000
1.760		1.807
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.043	Ailgodi Costau	0.044
0.043		0.044
4.070	Cyfanswm y Gwariant	4.238
	<u>Incwm</u>	
-1.616	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-1.699
-0.558	Derbynebau Cleientiaid/Cwsmeriaid	-0.603
-0.274	Incwm Mewnol	-0.300
-2.448	Cyfanswm yr Incwm	-2.602
1.622	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL	1.636

Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Mae'r maes gwasanaeth yn chwarae rôl allweddol fel darparwr gwasanaeth rheng flaen (gwasanaethau gofal i gwsmeriaid) a gwasanaethau cymorth mewnol ar draws y Cyngor.

Caiff y swyddogaethau canlynol eu cynnal o fewn y maes gwasanaeth:

- **Gofal i Gwsmeriaid** – sy'n cynnwys:
 - Gwasanaeth i Gwsmeriaid, gan ddarparu mynediad hawdd at wybodaeth a gwasanaethau trwy gyfrwng dewis cwsmer:
 - gan ddefnyddio gwefan y Cyngor yn ddigidol ac opsiynau hunanwasanaeth eraill;
 - dros y ffôn trwy Ganolfan Alwadau 24 awr y Cyngor; a
 - wyneb yn wyneb mewn lleoliadau yn y gymuned
 - Cymorth i Fusnesau ar gyfer Gweinyddu, Argraffu, Postio a Rheoli Cofnodion.
- **Gwasanaethau Rheoli Cyllid, Cyfrifon a Rheoli Cyflawniad:** sy'n cynnwys Rheoli Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, Adroddiadau Ariannol y Cyngor a Chyfrifon Carfannau Rheoli, Cysoni Systemau a Banciau, a darparu gwasanaethau cymorth i reoli data a chyflawniad ar draws y Cyngor.
- **Gwasanaethau TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu) a Digidol** – mae hynny'n cynnwys:
 - Y Swyddfa Gwella Digidol – cyngor digidol, gwella prosesau a rheoli/darparu prosiectau;
 - Data – rheoli gwybodaeth, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a diogelwch;
 - Seilwaith ac asedau TGCh y Cyngor – storio, telefoni, cyfrifiaduron, gliniaduron a chronfeydd data; a
 - Cymorth Gweithredol – Desg Wasanaeth a chefnogi systemau allweddol fel y Gyflogres, Gofal Cymdeithasol, Cyllid.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU CYLLID A DIGIDOL: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
8.834	NJC APT&C	8.863
0.671	Cydgynghor Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.591
9.505		9.454
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.001	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.001
0.001	Rhenti	0.001
0.029	Glanhau/Domestig	0.054
0.031		0.056
	<u>Cludiant</u>	
0.009	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.010
0.004	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.003
0.039	Lwfansau Ceir	0.039
0.052		0.052
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.808	Offer/Deunyddiau/Celfi	1.057
1.473	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	2.392
0.353	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.352
0.013	Grantiau a Chyfraniadau	0.014
0.020	Gwasanaethau	0.014
0.204	Amrywiol	0.243
0.008	Arall	0.009
2.879		4.081
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.285	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.293
0.285		0.293
12.752	Cyfanswm y Gwariant	13.936
	<u>Incwm</u>	
-0.000	Grantiau gan y Llywodraeth	-0.005
-0.078	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-0.108
-0.259	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-0.259
-1.755	Incwm Mewnol	-1.847
-2.092	Cyfanswm yr Incwm	-2.219
10.660	CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU CYLLID A DIGIDOL	11.717

Eiddo'r Cyngor

Mae eiddo yn adnodd allweddol ac yn cyflwyno delwedd weladwy iawn o'r Cyngor. Mae gydag eiddo werth, mae'n costio arian ac mae'n rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau i'r gymuned. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod eiddo yn adnodd strategol, gyda'r fframwaith cynllunio asedau yn gysylltiedig â strategaethau clir o ran gwasanaethau ac adnoddau corfforaethol.

Mae Eiddo'r Cyngor yn rhan o Gyfadran y Prif Weithredwr ochr yn ochr â'r Gwasanaethau Cyllid a Digidol, Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu. Mae ein blaenoriaethau yn cefnogi'r rhai wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2020-24 y Cyngor. Yn bennaf, mae ein blaenoriaethau o natur drawsbynciol yn cefnogi nifer o gydrannau / themâu'r Cynllun Corfforaethol yn ogystal â chyfrannu at Gynllunio Gwasanaethau Tymor Canolig.

Eiddo'r Cyngor yw'r Gwasanaeth arweiniol ar gyfer rheoli asedau'r Cyngor a chyflwyno amrediad eang o wasanaethau strategol i grwpiau'r Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant a Chyfadrn y Prif Weithredwr. Rydyn ni'n darparu gwasanaeth rheoli asedau cynhwysfawr gan gynnwys dylunio amlddisgyblaethol, gwaith cynnal a chadw strategol, rheoli asbestos, rheoli Clefyd y Lleng Filwyr (Legionella), gwybodaeth am dir ac eiddo, adolygu eiddo, prynu / gwerthu eiddo, rheoli ystadau a chynllunio rheoli asedau.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**EIDDO'R CYNGOR: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
0.130	NJC – Gweithwyr Llaw	0.134
3.080	NJC APT&C	3.310
0.433	Cydgyngr Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.430
3.643		3.874
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.712	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.765
0.022	Cynnal a chadw tiroedd	0.022
0.517	Ynni	0.621
0.030	Rhenti	0.107
0.942	Treth Leol	1.164
0.065	Dŵr	0.073
0.077	Glanhau/Domestig	0.141
2.365		2.893
	<u>Cludiant</u>	
0.002	Trafnidiaeth Uniongyrchol	0.002
0.001	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.001
0.036	Lwfansau Ceir	0.037
0.039		0.040
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.015	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.019
0.107	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.125
0.009	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.009
0.002	Hysbysebu	0.001
0.018	Grantiau a Chyfraniadau	0.018
0.010	Gwasanaethau	0.009
0.015	Amrywiol	0.015
0.002	Arall	0.004
0.178		0.200
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.201	Arall	1.089
0.201		1.089
6.426	Cyfanswm y Gwariant	8.096
	<u>Incwm</u>	
-1.199	Derbynebau Cleientiaid/Cwsmeriaid	-2.056
-1.768	Incwm Mewnol	-2.328
-2.967	Cyfanswm yr Incwm	-4.384
3.459	CYLLIDEB NET EIDDO'R CYNGOR	3.712

RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y PRIF WEITHREDWR

	CYLLIDEB		
	2020/21	2021/22	2022/23
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<u>Gwasanaethau Cyllid a Digidol</u>			
Cyfalafu Caledwedd a Meddalwedd Cyfrifiaduron a Thrwyddedau	0.700	0.700	0.700
Gwasanaethau Cyllid a Digidol – Cyfanswm	0.700	0.700	0.700
<u>Eiddo'r Cyngor</u>			
Adnewyddu/Rhesymoli Llety Grwpiau'r Gwasanaethau yn sylweddol	0.150	0.150	0.150
Cynnal a Chadw Strategol	0.050	0.050	0.050
Cynllun Rheoli Asedau	0.050	0.050	0.050
Gwella Corfforaethol	0.249	0.000	0.000
Rheoli Asbestos	0.175	0.175	0.175
Gwaith Ymdrin ag Asbestos	0.050	0.050	0.050
Gwaith Ymdrin â Chlefyd y Lleng Filwyr	0.275	0.275	0.275
Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr	0.175	0.175	0.175
Tai ac Adfywio	0.145	0.000	0.000
Eiddo'r Cyngor – Cyfanswm	1.319	0.925	0.925
CYFANSWM CYLLIDEB Y PRIF WEITHREDWR	2.019	1.625	1.625

* Mae cyllideb 2020/21 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2019/2020, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno ar y rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU
RHENG FLAEN**

**TROSOLWG FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG
FLAEN**


Mae'r Gyfadran yma'n cynnwys Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu (h.y. Gwasanaethau Adfywio, Tai a Chynllunio, ynghyd â Marchnata, Achlysuron, Twristiaeth a Dylunio) a Gwasanaethau Rheng Flaen (h.y. Gwasanaethau Priffyrdd, Trafnidiaeth, Gofal y Strydoedd a Pharciau).

Dyma grynodedb o'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Gyfadran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen ym mlwyddyn ariannol 2020/21:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Rhaglen Gyfalaf	56.969	0.000	56.969
Refeniw'r Gronfa Gyffredinol	88.468	-32.540	55.928
Cyfanswm	145.437	-32.540	112.897

**GWARIANT REFENIW FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU
RHENG FLAEN**

Cyfanswm Cyllideb Refeniw Net y Gyfadran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen ar gyfer 2020/21 yw £55.928 miliwn. Cyfanswm y gwariant gros yw £88.468 miliwn, ac mae'n cael ei ddadansoddi yn ôl mathau o wariant yn y siart isod.



Mae'r Gyfadran yn derbyn incwm o £32.540 miliwn sy'n lleihau gwariant net i £55.928 miliwn. Mae dadansoddiad manwl o sut y bydd yr arian yma'n cael ei wario i'w weld ar y tudalennau dilynol yn yr adran yma.

Grantiau Refeniw Penodol 2020/21

Mae'r tabl isod yn nodi'r prif feysydd gwariant sydd wedi'u hariannu gan y Grantiau Refeniw Penodol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau gwariant gros / incwm fel y bo'n briodol.

Corff Dyfarnu	Nod	Swm £ miliwn
Llywodraeth Cymru	Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles	0.030
	Grant Rheoli Trin Gwastraff mewn modd cynaliadwy	1.154
	Grant Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol	0.070
	Gostyngiadau Tocynnau Teithio	6.789
	Diogelwch y Ffyrdd	0.125
	Cymorth Gwasanaethau Bysiau	0.665
	Gwastraff Gweddilliol Cwm Yfory	1.189
	Gwastraff Bwyd Cwm Yfory	0.064

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN: MATH O
WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
14.159	NJC – Gweithwyr Llaw	13.708
12.754	NJC APT&C	13.602
0.770	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	1.011
2.365	Arall	2.555
30.048		30.876
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.603	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.603
0.254	Ynni	0.279
0.184	Rhenti	0.191
0.488	Treth Leol	0.508
0.146	Dŵr	0.154
0.138	Glanhau/Domestig	0.143
0.086	Arall	0.087
1.899		1.965
	<u>Cludiant</u>	
7.712	Trafnidiaeth Uniongyrchol	7.818
12.650	Llogi dan gontract	12.002
0.530	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.567
0.104	Lwfansau Ceir	0.102
20.996		20.489
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
4.270	Offer/Deunyddiau/Celfi	4.471
0.331	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.369
0.088	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.100
0.126	Hysbysebu	0.193
0.379	Grantiau a Chyfraniadau	0.264
15.152	Gwasanaethau	14.718
2.242	Amrywiol	2.369
0.128	Arall	0.133
22.716		22.617
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.082	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.159
0.021	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	0.036
8.561	Cludiant	8.580
0.204	Strwythurol	0.207
0.547	Cylchol	0.658
0.406	Cymhorthion diogelwch	0.412
0.062	Gwaith cynnal a chadw y gaeaf	0.063
1.475	Goleuadau'r strydoedd	1.543
0.113	Amrywiol	0.115

0.013 11.484	Draeniad priffyrdd	0.014 11.787
0.132 0.132	<u>Taliadau Trosglwyddo</u> Plant ysgol/Myfyrwyr	0.112 0.112
0.024 0.024	<u>Gwasanaethau Cymorth</u> Ailgodi Costau	0.024 0.024
0.438 0.438	<u>Cyllid Cyfalaf</u> Arall	0.598 0.598
87.737	Cyfanswm y Gwariant	88.468
-9.436 -1.122 -10.640 -2.564 -7.166	<u>Incwm</u> Grantiau gan y Llywodraeth Ad-daliadau/Grantiau eraill Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid Ailgodi costau – cyfrif refeniw arall Incwm Mewnol	-9.433 -1.250 -6.831 -0.044 -14.982
-30.928	Cyfanswm yr Incwm	-32.540
56.809	CYLLIDEB NET FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN	55.928

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN:
GWASANAETHAU SY'N CAEL EU CYNNAL**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Ffyniant a Datblygu</u>	
0.366	Gwasanaethau Canolog	0.364
1.157	Materion Adfywio a Ffyniant	1.054
-0.010	Tai	0.011
0.520	Gwasanaethau Cynllunio	0.666
0.634	Marchnata, Achlysuron, Twristiaeth a Dylunio	0.696
2.667	<u>Ffyniant a Datblygu – Cyfanswm</u>	2.791
	<u>Gwasanaethau Rheng Flaen</u>	
3.550	Carfan Rheoli'r Priffyrdd	3.495
14.632	Teithio/Cludiant	14.089
0.321	Prosiectau Strategol	0.249
4.366	Glanhau'r Strydoedd	4.637
0.964	Glanhau Cyfleusterau	0.970
4.322	Cynnal y Priffyrdd	4.076
18.245	Gwasanaethau Gwastraff	17.981
2.140	Rheoli Cerbydau'r Cyngor	2.165
3.886	Gwasanaethau'r Parciau	3.715
1.716	Cyfarwyddiaeth Cyfadran	1.760
54.142	<u>Gwasanaethau Rheng Flaen – Cyfanswm</u>	53.137
56.809	CYFANSWM CYLLIDEB FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN	55.928

Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

Ffyniant a Datblygu

Nod y gwasanaeth yma yw cefnogi twf economaidd yn Rhondda Cynon Taf, trwy ddarparu mentrau a gwasanaethau o safon uchel.

Mae Ffyniant a Datblygiad yn rhan o'r adran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen, gan ddarparu ystod o wasanaethau statudol ac anstatudol, ond gwasanaethau rheng flaen yn bennaf. Prif nod y gwasanaethau yma yw sicrhau adfywiad cytbwys a chynaliadwy drwy ddatblygu fframweithiau strategol ar gyfer darparu, rheoli datblygiad, hwyluso gwaith ffisegol, tai a chymorth i fusnesau ynghyd â mentrau datblygu economaidd eraill.

Mae'r gwasanaeth adfywio'n darparu cymorth trydydd sector a chymorth i fusnesau, grantiau cyfalaf personol y Cyngor a grantiau lle mae cyllid allanol ar gael.

Mae canol ein trefi yn ardaloedd gwaith allweddol. Ar hyn o bryd mae cynlluniau adfywio ac ymyraethau yn cael eu darparu. Mae'r gwasanaeth yn chwilio am ffynonellau cyllid pellach ar gyfer ein trefi yn gyson. Caiff mentrau cyflenwol eu cyflawni ar y cyd â'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth adfywio a'i rhoi ar waith.

Mae'r gwasanaeth tai yn darparu rhaglen gyfalaf fawr sy'n cynnwys amrywiaeth o grantiau ar gyfer perchnogion tai i atgyweirio, addasu a gwella eu cartrefi. Yn ogystal â hynny, mae'r adran grantiau'n cynnig grant eiddo gwag sy'n ceisio adfer eiddo gwag er mwyn iddo gael ei ddefnyddio unwaith eto. Mae'r swyddogaeth tai strategol yn gweithredu'n ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth am dai. Mae partneriaid mewnol ac allanol yn defnyddio'r wybodaeth yma er mwyn llywio polisïau mewn perthynas â thai, yn ogystal â rhaglenni buddsoddi cyfalaf.

Mae'r gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys swyddogaethau strategol a rheoli datblygiad. Y brif swyddogaeth yw datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r gwasanaeth yn ystyried ceisiadau o dan y Ddeddf Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu, prosesau gorfodi, goblygiadau cynllunio, Ardoll Seilwaith Cymunedol, a chynnal/diogelu amgylcheddau hanesyddol ac adeiladau peryglus.

Mae rhan sylweddol o waith y gwasanaeth yn seiliedig ar roi cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol i ddatblygu ei waith adfywio yn strategol a manteisio ar gyfleoedd cyllid.

Mae pwysigrwydd ymagwedd ranbarthol at adfywio, tai a datblygu economaidd yn cynyddu. Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan weithredol wrth lunio mentrau rhanbarthol gyda phartneriaid.

Mae Marchnata, Achlysuron, Twristiaeth a Dylunio yn rhan o Gyfadran Ffyniant, Datblygiad a Gwasanaethau Rheng Flaen. Maen nhw'n rhan annatod o'r gyfadran trwy godi proffil rhaglenni ailddatblygu Canol Trefi, a rheoli achlysuron proffil uchel fel Nos Galan; mae'r maes yma hefyd yn hyrwyddo atyniadau i ymwelwyr yn y Fwrdeistref Sirol.

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**FFYNIANT A DATBLYGU: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
4.033	NJC APT&C	3.869
0.221	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.451
4.254		4.320
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.001	Ynni	0.000
0.006	Rhenti	0.006
0.005	Treth Leol	0.006
0.003	Dŵr	0.003
0.003	Glanhau/Domestig	0.003
0.018		0.018
	<u>Cludiant</u>	
0.003	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.003
0.044	Lwfansau Ceir	0.044
0.047		0.047
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
0.035	Offer/Deunyddiau/Celfi	0.046
0.021	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.021
0.025	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.025
0.044	Hysbysebu	0.111
0.216	Grantiau a Chyfraniadau	0.101
0.006	Gwasanaethau	0.006
0.198	Amrywiol	0.197
0.001	Arall	0.001
0.546		0.508
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.000	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.082
0.021	Wedi cyflwyno gan Sefydliadau Gwirfoddol	0.036
0.007	Cylchol	0.006
0.028		0.124
4.893	Cyfanswm y Gwariant	5.017
	<u>Incwm</u>	
-2.128	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-2.128
-0.098	Incwm Mewnol	-0.098
-2.226	Cyfanswm yr Incwm	-2.226
2.667	CYLLIDEB NET FFYNIANT A DATBLYGU	2.791

Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen

Gwasanaethau Rheng Flaen

Mae'r Gwasanaeth yn darparu ystod eang o wasanaethau'r amgylchedd. Mae gwaith y garfan yn ymwneud â holl drigolion y fwrdeistref sirol ac yn medru ffurfio rhyngwyneb cyswllt sylweddol o broffil uchel â chwsmeriaid, ynghyd ag atebion mwyfwy cymhleth. Mae'r gwasanaeth yn rhan annatod o wasanaethau'r Cyngor a'r Gwasanaeth Rheng Flaen craidd.

Nodau'r gwasanaeth yw:

- Gweithio gyda'r gymuned i gynnal a gwella'r strydlyn hyd at safon sy'n hyrwyddo balchder dinesig a chyfrifoldeb cymunedol.
- Darparu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu effeithlon a dibynadwy sy'n bodloni gofynion cwsmeriaid a'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Adran yn cynnwys pedwar prif faes gweithredu ac mae'n cynnwys y meysydd gwasanaeth canlynol:

Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd

Cynnal y Priffyrdd
Gwasanaethau Parcio
Isadeiledd y Priffyrdd
Rheoli Datblygiad y Priffyrdd
Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithfeydd Stryd
Redstart

Teithio/Cludiant

Diogelwch y Ffyrdd
Uned Trafnidiaeth Integredig
Strategaeth Trafnidiaeth

Prosiectau Strategol

Cynlluniau Adeiladu
Gwasanaethau Traffig
Gwasanaeth Adfer Tir a Pheirianeg

Gwasanaethau Gofal y Strydoedd

Gwasanaethau Gwastraff
Glanhau'r Strydoedd
Glanhau Cyfleusterau
Adran Gorfodi
Cynllunio ar gyfer argyfyngau
Cynnal a Chadw Cerbydau
Gwasanaethau'r Parciau

REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL**GWASANAETHAU RHENG FLAEN: MATH O WARIANT**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
	<u>Gweithwyr</u>	
14.159	NJC – Gweithwyr Llaw	13.708
8.721	NJC APT&C	9.733
0.549	Cydgyngror Trafod Telerau – Prif Swyddogion	0.560
2.365	Arall	2.555
25.794		26.556
	<u>Adeiladau/Safleoedd</u>	
0.603	Trwsio, a Chynnal a Chadw	0.603
0.253	Ynni	0.279
0.178	Rhenti	0.185
0.483	Treth Leol	0.502
0.143	Dŵr	0.151
0.135	Glanhau/Domestig	0.140
0.086	Arall	0.087
1.881		1.947
	<u>Cludiant</u>	
7.712	Trafnidiaeth Uniongyrchol	7.818
12.650	Llogi dan gontract	12.002
0.527	Trafnidiaeth Gyhoeddus	0.564
0.060	Lwfansau Ceir	0.058
20.949		20.442
	<u>Cyflenwadau a Gwasanaethau</u>	
4.235	Offer/Deunyddiau/Celfi	4.425
0.310	Cyfathrebu/Cyfrifiadura	0.348
0.063	Deunydd Ysgrifennu/Argraffu	0.075
0.082	Hysbysebu	0.082
0.163	Grantiau a Chyfraniadau	0.163
15.146	Gwasanaethau	14.712
2.044	Amrywiol	2.172
0.127	Arall	0.132
22.170		22.109
	<u>Trydydd Parti</u>	
0.082	Wedi cyflwyno gan Awdurdodau Lleol eraill	0.077
8.561	Cludiant	8.580
0.204	Strwythurol	0.207
0.540	Cylchol	0.652
0.406	Cymhorthion diogelwch	0.412
0.062	Gwaith cynnal a chadw y gaeaf	0.063
1.475	Goleuadau'r strydoedd	1.543
0.113	Amrywiol	0.115
0.013	Draeniad priffyrdd	0.014
11.456		11.663

0.132	<u>Taliadau Trosglwyddo</u>	0.112
0.132	Plant ysgol/Myfyrwyr	0.112
	<u>Gwasanaethau Cymorth</u>	
0.024	Ailgodi Costau	0.024
0.024		0.024
	<u>Cyllid Cyfalaf</u>	
0.438	Arall	0.598
0.438		0.598
82.844	Cyfanswm y Gwariant	83.451
	<u>Incwm</u>	
-9.436	Grantiau gan y Llywodraeth	-9.433
-1.122	Ad-daliadau/Grantiau eraill	-1.250
-8.512	Derbynebaw Cleientiaid/Cwsmeriaid	-4.703
-2.564	Ailgodi costau – cyfrif refeniw arall	-0.044
-7.068	Incwm Mewnol	-14.884
-28.702	Cyfanswm yr Incwm	-30.314
54.142	CYLLIDEB NET GWASANAETHAU RHENG FLAEN	53.137

**RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD AR GYFER FFYNIANT, DATBLYGU
A GWASANAETHAU RHENG FLAEN**

	CYLLIDEB		
	2020/21	2021/22	2022/23
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<u>Ffyniant a Datblygu</u>			
<u>Adfywio a Chynllunio</u>			
Grantiau Cymorth i Fusnesau	0.200	0.200	0.200
Datblygiad Llys Cadywn (Canolfan Dyffryn Taf)	5.289	0.000	0.000
Rhaglen Fuddsoddi mewn Adfywio wedi'i Thargedu - Rhanbarthol	0.854	0.000	0.000
Adfywio a Buddsoddi	1.300	0.400	0.400
Datblygiad Tresalem	5.102	0.000	0.000
Datblygiad Coed Elái	2.414	0.059	0.000
Datblygiad Traciau a Llwybrau RhCT	0.100	0.040	0.000
YMCA, Pontypridd	1.270	0.000	0.000
Canolfannau Darganfod Parc Rhanbarthol y Cymoedd Parc Coffa Ynysangharad	0.310	0.000	0.000
Adfywio a Chynllunio - Cyfanswm	16.839	0.699	0.600
<u>Tai'r Sector Preifat</u>			
Grantiau/Addasiadau ar gyfer Cyfleusterau i'r Anabl	4.400	4.000	4.000
Cymorth Cynnal a Chadw ac Atgyweirio	0.450	0.450	0.450
Grantiau Adnewyddu, Amgylchiadau Eithriadol a Pharthau Gwella Cartrefi	0.650	0.450	0.450
Eiddo'r Grant Eiddo Gwag	0.000	0.900	0.000
Tai fforddiadwy	0.400	0.400	0.400
Adfywio Cymunedau	0.550	0.250	0.250
Cronfa Trechu Tlodi	0.300	0.000	0.000
Tai'r Sector Preifat – Cyfanswm	6.750	6.450	5.550
Ffyniant a Datblygu – Cyfanswm	23.589	7.149	6.150

<u>Gwasanaethau Rheng Flaen</u>			
<u>Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd</u>			
Gwella'r Priffyrdd	7.801	3.804	0.750
Meysydd Parcio	0.045	0.045	0.045
Strwythurau	6.051	0.300	0.300
Strwythurau Parciau	1.000	0.000	0.000
Goleuadau'r strydoedd	0.200	0.200	0.200
Rheoli Traffig	0.160	0.160	0.160
Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd – Cyfanswm	15.257	4.509	1.455
<u>Prosiectau Strategol</u>			
Rhwydwaith Trafnidiaeth	9.224	2.525	0.025
Gwella'r Systemau Draenio	0.540	0.140	0.140
Prosiectau Strategol – Cyfanswm	9.764	2.665	0.165
<u>Strategaeth Gwastraff</u>			
Strategaeth Gwastraff	2.147	0.000	0.000
Strategaeth Gwastraff – Cyfanswm	2.147	0.000	0.000
<u>Cerbydau</u>			
Cerbydau	6.112	1.573	0.400
Cerbydau – Cyfanswm	6.112	1.573	0.400
<u>Adeiladau</u>			
Adeiladau	0.100	0.100	0.100
Adeiladau – Cyfanswm	0.100	0.100	0.100
Gwasanaethau Rheng Flaen – Cyfanswm	33.380	8.847	2.120
CYFANSWM CYLLIDEB FFYNIANT, DATBLYGU A GWASANAETHAU RHENG FLAEN	56.969	15.996	8.270

* Mae amcangyfrifon 2020/2021 yn cynnwys amcangyfrif o lithriad o 2019/2020, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno ar y rhaglen tair blynedd.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYLLIDEBAU'R AWDURDOD CYFAN

TROSOLWG O GYLLIDEBAU'R AWDURDOD CYFAN

Mae Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan yn cynrychioli'r elfennau hynny o gyllido sydd ar gyfer y Cyngor cyfan – does dim modd cysylltu'r cyllid yma i un gyfadran benodol.

Dyma grynodedb o'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer y cyllidebau yma ym mlwyddyn ariannol 2020/21:

	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Refeniw'r Gronfa Gyffredinol	132.528	-62.056	70.472
Cyfanswm	132.528	-62.056	70.472

**CYLLIDEBAU'R AWDURDOD CYFAN: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU
CYNNAL**

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21
£ miliwn		£ miliwn
18.917	Cyllid Cyfalaf	19.713
12.384	Ardollau	12.438
11.815	Amrywiol	13.216
0.400	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.425
24.336	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	24.680
67.852	CYFANSWM CYLLIDEBAU'R AWDURDOD CYFAN	70.472